

ECO'R WYDDFA

RHIF 336

MEDI 2006

PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn...

- Cwmni trên bach yr Wyddfa
- Atgofion Ysgol Brynrefail
- Tlws Pêl-droed yr Eco

O Bydded i'r *Eco* Barhau!

Yr Eco Olaf? oedd pennawd digalon rhifyn diwetha'r Eco ddechrau'r haf. Wedi misoedd o waith llafurus yn gosod y papur bro, roedd y golygyddion yn teimlo nad oedd dyfodol i'r *Eco* – oni bai fod mwy o bobl yr ardal yn gwirfoddoli i sicrhau ei ddyfodol.

Er mai nifer cymharol fechan o bobl a ddaeth i'r cyfarfod i gynnig eu cymorth ddechrau Gorffennaf, penderfynwyd y byddai'r *Eco* yn parhau am y tro.

Newyddion da yn wir – ond rhaid pwysleisio bod angen mwy o wirfoddolwyr a chymorth o hyd. Ar hyn o bryd, gosodir yr *Eco* trwy ddull hynod gyntefig, gyda siswrn a glud! Er mwyn symud gyda'r oes y nod yw derbyn meddalwedd cysodi papurau newydd arbenigol er mwyn hwyluso'r gwaith. Bydd dau dîm golygyddol yn gysylltiedig â'r *Eco* – yn gosod a golygu bob yn ail a dylid

gyrru unrhyw newyddion sydd i'w cynnwys yn rhifyn nesa'r *Eco* at y gohebwyd bro:

Gavin Saynor, Penarth, Stryd yr Orsaf, Llanrug (gyferbyn â Stad Tal-y-bont), neu drwy e-bostio: llinos@hotmail.com

Ni fydd modd gadael newyddion yr *Eco* yn Palas Print o hyn ymlaen.

Rhaid pwysleisio bod yr angen am fwy o gyfrannwyr a gwirfoddolwyr yn dal i fodoli. Rydym yn ymbil arnoch, bobl ifanc yr ardal, i roi cymorth i ni er mwyn gwneud yr *Eco* yn bapur i'r holl fro. Yr ydym yn awyddus iawn hefyd i dderbyn cymorth wrth hel straeon lleol ac i annog unrhyw un sydd â stori dda, neu syniad am golofnau newydd i'w gynnwys yn yr *Eco*. Mae croeso mawr i chi gysylltu â'r tîm golygyddol ar y rhifau ffôn ar dudalen 2.



ECO'R WYDDFA

**RHIF 336
MEDI 2006**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu**

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
LL55 4BA

Ymholiadau Golygyddol
Llinos Jones
01248 374 962
llynoshaf@hotmail.com

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanfynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@parabl.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

**Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol**

NOS LUN, 18 MEDI

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 28 MEDI

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Hydref	18 Medi	28 Medi	Penisarwaun	Ann Evans	872 407

Llythyrau

Bryn y Nant,
Llanrug,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 4BA.

Annwyl Ddarllenwyr,

'Capal Bont' yn gant oed.

Yn ystod 2007 bydd Capel
Pontrhythallt (Capel y Rhos bellach) yn
dathlu ei ben-blwydd yn gant oed. Fe'm
gwahoddwyd gan swyddogion yr Eglwys
i olygu cyfrol fydd yn cofnodi hanes yr
achos ym Mhontrhythallt dros y ganrif a
aeth heibio.

Dyma fanteisio ar y cyfle i wahodd
aelodau presennol a chyn-aelodau, neu
unrhyw un sydd neu a fu â chysylltiad â'r
Capel, i gysylltu â mi os oes ganddynt
atgofion, cofnodion, lluniau ac yn y
blaen am wahanol gyfnodau yn hanes y
Capel. Byddwn yn hynod ddiolchgar am
unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r gwahanol
gymdeithasau a fu'n gysylltiedig â'r capel,
megis eisteddfod, cwmni drama a
chymdeithas lenyddol, neu hyd yn oed
am y rhai fu'n garddio yn y llain tir tu
cefn i'r festri. Yn naturiol, byddai cael
lluniau o unrhyw achlysuron arbennig
yn fanteisiol, a gallaf eich sicrhau y
cymerir pob gofal o unrhyw lun a
fenthycir.

Mae croeso i chwi gysylltu â mi trwy
lythyr neu ar y ffôn (01286 673515).

Gyda diolch ymlaen llaw am ymateb,

Yr eiddoch yn gywir,

Dafydd Whiteside Thomas

Annwyl Olygydd,

Yr oedd cyoeddi *Caneuon Ffydd*, y llyfr
emynau a thonau cyd-enwadol cyntaf
yng Nghymru, yn Ionawr 2001 yn
achlysur o bwys. Bu'r llyfr yn gyfle i
gyflwyno emynau a thonau cyfarwydd a
hefyd rai newydd i gynulleidfaoedd
ledled y wlad ac mae'r ffaith fod y
casgliad wedi gwerthu wrth y miloedd a'i
fod yn awr yn ei drydydd argraffiad yn
brawf fod diddordeb byw yn y rhan hon
o'n treftadaeth yn parhau.

Yr hydref yma, fe fydd Pwyllgor y
Llyfr Emynau Cyd-enwadol yn
cyhoeddi *Cydymaith i Caneuon Ffydd*,
llyfr sy'n thoi hanes cryno pob emyn a
thôn yn y casgliad, yn cynnig bywgraffiad
byr o bob emynydd, cyfansoddwr a
chwyfieithydd ac yn darparu cyflwyniad
sylweddol i hanes emynyddiaeth
Gymraeg. Elfen ddifys yn y *Cydymaith*
yw'r sylw sy'n cael ei roi i gynifer o
hanesion diddorol, ac annisgwyl
weithiau, am gysylltiadau cyfansoddi
llawer o'r emynau a'r tonau. Cewch
atebion i'r rhan fwyaf o'ch ymholiadau a
chodi hefyd lawer o wybodaeth newydd
wrth bori yn y *Cydymaith*.

Pris y gyfrol fydd £17.95 a bydd yn y

siopau'n fuan: yr anrheg Nadolig
perffaith ichwi eich hun ac i eraill.

Yn gywir

BRYNLEY F. ROBERTS

Cadeirydd y Pwyllgor Golygyddol

53 Wingfield Road

Eglwysnewydd

Caerdydd CF14 1NJ

Annwyl Olygydd,

Chwilio am Hugh

Fe enillodd yr actor o Fôn, Hugh
Griffith, Oscar ym 1959 am ei ran fel y
gwerthwr ceffylau yn y ffilm enwog, *Ben
Hur*, ac fel un o Fôn fy hun, mae gen i
ddiddordeb mawr yn yr actor. Yn wir, yn
y 70au gefais y ffrainc o gyd-actio efo fo a
Myfanwy Talog yn y gyfres gomedi *Haf
o Hyd*. A phwy all anghofio ei
berfformiad cofiadwy yn y ffilm
boblogaidd honno, *Grand Slam*.

Ar hyn o bryd rydw i'n casglu
gwybodaeth am Hugh Griffith, gyda'r
bwriad o sgwennu cofiant iddo. Os oes
gan unrhyw un o'ch darllenwyr unrhyw
wybodaeth o gwbwl - stracon, atgofion,
lluniau neu lythyrau yn ymwneud â
Hugh Griffith buaswn yn falch iawn pe
baent yn cysylltu â mi drwy lythyr neu e-
bost: hywel.gwynfryn@bbc.co.uk

Diolch yn fawr iawn

HYWEL GWYNFRYD

Sefydliad Prydeinig y Galon

Fel canlyniad i'r casglu o ddy i ddy yn
ddiweddar, casglwyd y swm o £1,872.20
rhwng yr ardaloedd a nodir er budd yr
elusen uchod: Penisarwaun, Bethel,
Llanddeiniolen, Llanrug, Llanberis,
Waunfawr, Caethro, Rhyd Ddu,
Deiniolen, Dinorwig, Nant Peris a
Chwm-y-glo. Dymuna'r Pwyllgor
ddiolch i bawb a gyfrannodd eleni eto ac
i'r rhai a fu'n casglu. Llwyddwyd i gasglu
yng Nghaernarfon a'r cylch y swm o
£5,248.91c.

Draenog

Pwy, medda chi, yn ystod yr ail wythnos
ym mis Awst eleni fu'n cerddad, fel petae
fo adra, o gwmpas dinas Bangor hefo

hambwrdd yn ei law? Peth hawdd
wyddoch chi ydy ista yng nghaffi
Pengwin yn mynhau panad a theisan gri,
ond matar arall ydy crwydro strydoedd y
ddinas hefo hambwrdd o eiddo'r ciaffi
yn eich llaw! Doedd ryfadd fod pawb yn
gwenu yn ddel arnoch! Y tro nesa
rhowch botelaid o win cochaf
Bwrgwendi-Moel-Eilio a gwydryn go
barchus wrth ei hymyl, a chymrwch
arnoch da chwi mai gweinydd, ia *weitar*,
ydach chi.

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwych

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

**Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?**

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad

yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Eurun (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Anniwynol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA'R

POST BETHEL

01248 670261

Cewch groeso cynned gan
y perchnogion newydd
CLED A SUSAN

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu
biliau etc Yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

**Diolch i Bobol Bethel am eu croeso a'u cefnogaeth yn
ystod ein misoedd cyntaf**

ORIAU AGOR

6am-7:30pm

(Llun-Sadwrn)

6am-6pm

(Sul)

Llwyddiant y Gefeillio

Cyntaf i Ddwy Amgueddfa

Bu dathlu mawr yn Amgueddfa Slate Valley, Granville, Talaith Efrog Newydd, y penwythnos diwethaf pan gafodd yr amgueddfa ei gefeillio gydag Amgueddfa Cymru, ac yn fwy penodol, Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.

Bu'r gwaith o efeillio'r ddau sefydliad yn mynd rhagddo ers rhai misoedd, ac roedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru, Michael Houlihan, a Cheidwad Amgueddfa Lechi Cymru, Dr Dafydd Roberts, wrth law yn Granville ar gyfer y dathliadau.

Eglurodd Dr Roberts y syniadaeth y tu ôl i'r gefeillio:

'Er mai codi proffil y gefeillio a'r ddau sefydliad rydan ni wedi bod yn ei wneud wrth drefnu digwyddiadau fel hyn, mae rheswm llawer dyfnach dros gydweithio'n agos gyda'n gilydd.

'Does dim llawer o amgueddfeydd yn y byd sy'n adrodd hanes y diwydiant llechi ac o'r herwydd mae'n bwysig ein bod yn cydweithio gyda'n gilydd lle gallwn ni. Yn ogystal, mae'r cysylltiadau rhwng ardal chwarelyddol gogledd-orllewin Cymru - cartref Amgueddfa Lechi Cymru - ac ardal Granville, sy'n gartref i Amgueddfa Slate Valley, yn rhyfeddol, ac roedd gennym gyfrifoldeb i gofio ac i ddathlu'r rhain.

'Fe fyddan ni'n parhau â'r gwaith dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf ac yn datblygu cysylltiadau academaidd, codi proffil a chymdeithasol gydag Amgueddfa Slate Valley, gan ddechrau gyda seremoni gefeillio y pen yma rydan ni'n gobeithio'i drefnu o fewn y flwyddyn nesaf, ychwanegodd.

Wrth groesawu'r gefeillio yn Granville, sôn am bwysigrwydd a newydd-deb perthnasau fel hyn wnaeth Michael Houlihan, ac meddai:

'Rydan ni wedi bod yn ceisio meddwl am enghreifftiau eraill o amgueddfeydd yn gefeillio er mwyn cydweithio ac adeiladu ar gysylltiadau ac arfer da. Rydan ni wedi methu meddwl am unrhyw ddwy amgueddfa arall. Yn ddi-os felly, mae Amgueddfa Cymru - ac Amgueddfa Lechi Cymru yn arbennig - yn arwain y ffordd yn y gwaith rydan ni wedi bod yn ei wneud.

'Me hwn yn brosiect pwysig o safbwynt Cymru ac America ac rwy'n gobeithio y byddwn yn dilyn llwyddiant gefeillio Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Slate Valley gyda rhagor o efeillio gyda sefydliadau tebyg dros y blynyddoedd nesaf.'

Yn ogystal â'r gwaith codi proffil a threfnu'r gefeillio ei hun, bu'r ddwy amgueddfa yn brysur dros y misoedd diwethaf yn hel atgofion pobl leol - y Cymry'n hel atgofion am yr aelodau rheini o'u teuluoedd a adawodd Gymru i chwilio am fywyd gwell, a'r

Americanwyr yn cofio'u cyndadau a groesodd Fôr yr Iwerydd. Bydd ffrwyth llafur yr apêl yng Nghymru ac America yn ymddangos ar wefan Amgueddfa Cymru dros y misoedd nesaf, a'r gobaith yw parhau i hel atgofion a'u cyhoeddi mewn llyfryn a fydd ar gael yng Nghymru ac America y flwyddyn nesaf, fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant Amgueddfa Cymru.

Os oes gennych chi unrhyw atgofion am aelodau o'ch teulu a adawodd Cymru, cysylltwch ag Amgueddfa Lechi Cymru ar (01286) 870630.

Mae Amgueddfa Cymru yn gweinyddu saith amgueddfa genedlaethol ar hyd a lled Cymru: Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd; Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru; Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion; Big Pit; Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon; Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre; Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Aberawe.

Mae Amgueddfa Cymru yn dathlu ei chanmlwyddiant yn 2007. Am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.amgueddfacymru.ac.uk

Ceir mynediad am ddim i holl safleoedd Amgueddfa Cymru, diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yr Ateb i Bopeth ar Flaenau eich Bysedd

Mae gwefan newydd wedi cael ei lansio sy'n llawn gwybodaeth ar gyfer cartrefi, busnesau a chymunedau Cymru. Beth bynnag yw'ch cwestiwn, o ebostio *Ask Cymru* am atebion i bô,

i ddod o hyd i safleoedd am hanes teuluol neu gael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf am swyddi, bydd yr ateb ar gael ar www.llyfrgell.cymru.org

Daw'r wefan ag ystod eang o wasanaethau ar-lein at ei gilydd, yn cynnwys cysylltiadau defnyddiol, gwasanaeth bwydo gwybodaeth fyw (RSS), ffynhonnell wybodaeth *KnowUK* a bas-data newyddion *NewsUK*, yn ogystal â gwasanaeth fel Gwales a Chymru ar y We.

Mae'r prosiect yn rhan o raglen Llywodraeth Cynulliad Cymru, @ Eich Llyfrgell Chi, y prosiect cyntaf o'i fath ym Mhrydain i uno holl wasanaethau'r llyfrgelloedd cyhoeddus, addysg uwch ac addysg bellach er mwyn creu un porth gwybodaeth cynhwysfawr.

Mae'r ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad yn cyllido'r cynllun yn golygu bod y gwasanaethau ar y wefan ar gael yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr yng Nghymru - mae angen talu i danysgrifio i'r gwasanaethau ym mhob rhan arall o Brydain.

Er mwyn helpu staff llyfrgelloedd i hyrwyddo www.llyfrgell.cymru.org mae bron i 1,000 o becynnau cymorth wedi'u hanfon i lyfrgelloedd ledled Cymru, sy'n cynnwys gwybodaeth am y wefan a sut i'w defnyddio, deunydd marchnata a mwy o wybodaeth am sut i hyrwyddo'r wefan ar lefel leol.

Dywedodd Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: 'Mae'r wefan hon yn drysorfa o wybodaeth ac yn adnodd gwych sy'n rhad ac am ddim i bawb. Rwy'n annog pawb, o'r plentyn sy'n chwilio am help gyda'i waith cartref i'r bobl sy'n chwilio am

swyddi, i fanteisio ar y gwasanaeth hwn.

'Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu'n llyfrgelloedd fel eu bod yn perthyn i'r 21ain ganrif. Mae wedi buddosddi £2 miliwn yn llyfrgelloedd Cymru er mwyn codi safonau a datblygu prosiectau diddorol ac arloesol fel hwn er mwyn sicrhau bod llyfrgelloedd yn berthnasol i bobl heddiw.'

Mae'r wefan ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg (www.library.wales.org) a gellir ei defnyddio'n llawn drwy fewngofnodi rhif cerdyn llyfrgell, sydd ar gael yn rhad ac am ddim o unrhyw lyfrgell.

Tro Cyntaf i Ferch (o Ddeiniolen!)

Annette Bryn Parri oedd y ferch gyntaf i arwain 600 o chwaraewyr bagpibau o'r Alban, Iwerddon, Llydaw a Sbaen yn yr ŵyl flynyddol Geltaidd yn Lorient, Llydaw. Roedd Annette, o Ddeiniolen, yn Llydaw fel Cyfarwyddwraig Cerdd Côr y Traeth a oedd wedi derbyn gwahoddiad i gynrychioli Cymru yn yr Ŵyl Geltaidd.

'Roedd yn brofiad ardderchog i arwain cymaint o gerddorion mewn stadiwm bêl-droed gyda 12,000 o gynulleidfa,' meddai Annette.

Mae 70,000 o ymwelwyr yn mynychu'r ŵyl, gyda'r Côr yn perfformio mewn 10 achlysur, yn cynnwys nosweithiau cabaret ac hefyd cyngherddau cysegredig. Dywedodd Gareth Ogwen Jones, Biwmares, Cadeirydd y Côr ei fod yn teimlo fod pob un o'r wyth gwlad Geltaidd oedd yn bresennol yn mynnu chwarae'r bagpibau trwy'r adeg!

Taith nesaf Côr y Traeth fydd ymweliad â'r Iwerddon yn mis Hydref.

Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno ymaelodi â'r côr ddod i'r ymarfer nesaf ar nos Lun, 4 Medi am 7.45 yn Ysgol Goronwy Owen, Benllech.

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts



Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI
CELTIC WINDOWS



FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO
MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partion rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar **675190 / 673188**

Ffôn symudol: **07798 718788**
wefan: www.ydyncig.co.uk



Hefina ac Elwyn Wilson Jones a Mair Lloyd Hughes yn recordio gydag Alan ar nos Wener ddiwedd Mehefin.

DEINIOLEN

MARWOLAETH. Bu farw Donald, 2 View Terrace, yn dawel wedi cystudd hir ar yr 20fed o Fehefin yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Roedd ei angladd yn gyhoeddus yn y tŷ ac yn dilyn ym mynwent Llanddenniolen dydd Llun, 26 Mehefin.

Dymuna Nan, Aled, Rhian a Gethin ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid arbennig iawn. Diolch am yr ymweliadau, galwadau ffôn, cardiau a'r rhoddion hael o £2,000 tuag at Ward Pablig, Ysbyty Eryri, Caernarfon, lle cafodd ofal a charedigrwydd mawr. Diolch i Seindorf Arian Deiniolen; y Parchedigion John Pritchard, John Gwilym Jones, Eryl Lloyd Davies, Eifion Williams a Bryn Williams am eu gwasanaeth yn yr angladd. Roedd y Parchedigion Trefor Lewis a Ioan Davies yn methu bod yn bresennol. Diolch hefyd i'r merched am baratoi lluniaeth yn Festri Ebeneser ac i Gwynfor Jones, E.W. Pritchard, Llanberis am drefniant trylwyr.

GWASANAETH I'W FRO. Ers 1999, mae Alan Parry o Bentre Helen, Deiniolen, wedi bod yn gweithio'n ddifflino gyda Radio Ysbyty Gwynedd. Mae'n darlledu bum noson yr wythnos ac mae'n cyflwyno ceisiadau i'r cleifion ac yn sgwrsio gyda gwahanol bobl sy'n troi i mewn i'r stiwdio. Mae Catrin hefyd yn gweithio gydag Alan.

Mae'r cyfan o'r gwaith yn gwbl wirfoddol, ond nid dyna'r cyfan mae Alan yn ei gyflawni. Mae'n helpu gyda'r Groes Goch, yr WRVS ac hefyd mae'n croesi plant o flaen Ysgol y Faenol. Gerthfawrogir gwaith Alan yn fawr ac yn ddiweddar mae wedi cytuno i wneud yr un math o waith yn Ysbyty Glan Clwyd.

Diolch yn fawr Alan am y

gwaith hynod werthfawr yma sy'n llwyddo i godi ysbryd llawer un sy'n orweddog yn Ysbyty Gwynedd. Pob hwyl gyda'r fenter yng Nglan Clwyd.

DYMUNA John, Gwen a'r teulu, Fron, ddiolch i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli brawd, brawd-yng-nghyfrith ac ewythr, oedd mor annwyl ganddynt. Diolch arbennig am y rhoddion hael a dderbyniwyd ac a gyflwynwyd i ward Alaw, Ysbyty Gwynedd a TOFFS. Diolch o galon.

LLONGYFARCHIADAU i Catrin Llewelyn Gruffudd, 3 Hafod, Clwt y Bont, am basio ei arholiad piano Gradd 1 gyda anrhydedd yn ddiweddar. Yn dilyn ei llwyddiant gofynnwyd iddi berfformio yn Neuadd Pritchard Jones, Prifysgol Bangor, gan y Coleg Cerdd Brenhinol gyda nifer o gerddorion llwyddiannus eraill.

Dymuna Catrin ddiolch i'w hathro, Mr Elfed Morris, a'i chyn-athrawes, Miss Heledd Pari, am ei dysgu.

Da iawn, Catrin, gobeithio y byddi di'n cario ymlaen gyda'r chwarae.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Y Sadwrn cyntaf ym mis Gorffennaf, aeth aelodau o'r Gymdeithas draw i wlad Llŷn. Braf oedd troi oddi ar y ffordd fawr i Bwllheli ym mhentref Llanaelhaearn, heibio llethrau Tre'r Cewri a phentrefi Llithfaen a Nefyn. Aros ym mhentref Tudweiliog i gael cinio ac yna heibio godre Garn Fadryn ar hyd y gwastadeddau i lawr am Aberdaron. Yno yn ein disgwyl roedd Rheithor Aberdaron, y Parchedig Evelyn Davies, aeth â ni o amgylch eglwys hynafol Hywyn Sant, sydd yn dyddio o 1252. Roed y gwaith atgyweirio ar yr eglwys bron â'i gwblhau a da oedd clywed mai pobol a

chrefftwyr lleol oedd wedi bod yn cario allan y gwaith. Cyn ymadael arweiniodd y Rheithor ni mewn gwasanaeth byr o fewn muriau hanesyddol Eglwys Hywyn Sant. Yna cael ychydig gyfle i fynd o gwmpas Aberdaron, cyn troi am adref trwy Fotwnnog, gan aros am ychydig yn nhref Cricieth.

Diolch am gymeithasau fel hyn yn ein pentrefi, rydym yn elwa o gael gwahanol bobol i sgwrsio am eu gwaith a'u bywyd. Dyma a gawsom yn ystod y flwyddyn – Medi: gwaith yr Ambiwylans Awyr gan Anwen Thomas; Hydref: Swper y Cynhaeaf gyda'r Canon Idris Thomas o Drefor; Tachwedd: Ruth Charles yn sgwrsio am ei bywyd yn Ynysoedd yr Hebrides; Ionawr: noson o

atgofion a lluniau o'r ardal gan Miss Jane Foulkes; Chwefror: Hywyn Williams yn sôn am y bechgyn o'r ardal a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf; Mawrth: sgwrs hynod gan Bobby Haines o Gaernarfon; Ebrill: y Parchedig Wyn Roberts, Caplan Ysbyty Gwynedd; Mai: y parchedig Philip Hughes yn sgwrsio am ei daithy a'i brofiadau yn Uganda.

Bydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar nos Lun, 4 Medi. Y siaradwr gwadd fydd y Canon Gwyndaf Hughes o Gaernarfon a bydd croeso cynnes i bawb.

PEN-BLWYDD PRIODAS ARBENNIG. Llongyfarchiadau mawr i Glyn a Hannah Edwards, Fferm Gerlan, Clwt y Bont, sydd yn dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol. Pob bendith a hir oes i'r ddau ohonoch.



**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y Sgwâr
Llanrug**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael –

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

SNOWDONIA PARC



WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn

Ffôn: 650218

ARVONIA 

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvoniaco.uk
Gwefan: www.arvoniaco.uk



Good Bye Lenin (2003)

Cynildeb i'w ganmol

Adolygiad gan Martin Ll. Williams
Diwrnod trymaidd a chwilboeth arall mewn dinas swllyd, glawstroffobig a di-drefn.

Do, bûm yn trio dod o hyd i ryw fath o ddihangfa un prynhawn diweddar. Peint oer (ond cynnes wedi pum munud – diolch i'r tywydd) mewn gardd dafarn?

Sipian paned o goffi (a honno'n costio crochris) y tu allan i gaffi gyda bwrdd sigledig, cadair anghyfforddus a budr, a phafin llawer rhy gul fel nad oedd dim modd anghofio am lygredd a chyrn diamynedd y moduron sy'n mynd heibio?

Talu gormod am docyn sinema, ceisio peidio ildio i'r demtasiwn o brynu popcorn a diod pop (h.y. sothach) llawer drutach na'r pris 'arferol' – a gorfod goddef ambell fynychwr sinema sy'n rhy anwybodus i ddeall safonau ymddygiad byd y sgrin fawr?

Na, dim diolch! Un DVD am ddiwrnod am bunt namyn ceiniog – dyna oedd y cynnig yn fy siop ffilmiau leol – diolch i'r tywydd poeth decini, gan fod canran sylweddol o gwsmeriaid arferol y siop yn llawer rhy brysur unai yn yfed peint cynnes – poeth hyd yn oed ar ôl digon o amser, yn colli gwerth hanner cwpanaid o goffi ar fwrdd sigledig neu'n ymdrechu i ddeall llinellau'r actor ar y sgrin fawr ac anwybyddu synau cythruddol y ffilm-byff (ha,ha) drws nesa.

Ennill gwobr

Good Bye Lenin – enillydd Gwobr Blue Angel am y Ffilm Ewropeaidd Orau, Berlin 2003 – oedd fy newis. Ffilm gan Wolfgang Becker yn yr iaith Almaeneg gydag is-deitlau Saesneg.

Fel *Gadael Lenin*, mae a wnelo'r ffilm hon â phynciau dyrys megis comiwnyddiaeth, cyfalafiaeth, delfrydiaeth a sut mae cenedl a phobl yn ymdopi wedi newid mawr ac anochel.

Hoff olygfeydd

Gall darllen adolygiad cynhwysfawr a manwl o ffilm cyn ei gwyllo am y tro cyntaf ddifetha'r mwynhad. Felly, (heb sôn gormod am y stori afaelgar) dyma fy hoff olygfeydd a rhagoriaethau yn y ffilm. Gyda llaw, ni fyddem yn Gwlo gormod cyn gwyllo'r ffilm chwaith. Gwell mynd i www.79qmddr.de ar ôl y profiad:

Y defnydd ffraeth a wneir o gwmni diodydd pop mwya'r byd ac un o fwyta'i bwyd sothach mwya'r blaned.

'Mwynhewch eich bwyd a diolch yn fawr am ddewis BK', medd Ariane (Maria Simon) wrth ei brawd, Alex (Daniel Bruhl) – gyda gwaedlif o'r trwyn yn yr ystafell ymolchi.

Wrth gwrs, nid cynnwys y

frawddeg hon ar phen ei hun sy'n wych ond y ffaith mai dyma yw ei hateb i gwestiwn pwysig ei brawd. Mi chwerddais i yn uchel, ond efallai y byddai Almaenwyr yn ymateb yn wahanol – wn i ddim. Chris Waddle yn methu cic o'r smotyn. Lloegr yn colli yn rownd gyn-derfynol Italia 90. Anlwcus Herr Robson!

Y 'twyllo' da ei fwriad gyda'r jariau bwyd – hynod o ddoniol a phryfoclyd. Beth yn union sy'n gwneud cenedl yn genedl? Pa mor Brydeinig, Ewropeaidd a *multikulti* yw Cymru mewn gwirionedd? Pïcs Spreewald – fel chwilio am nodwydd mewn tas wair wedi'r *Wende*. Andros o ddoniol pan fo Alex yn dod o hyd i jar... Cerflun o Lenin yn cael ei gario gan hofrennydd – mam Alex (Katrin Sass) wedi drysu'n lân. Yn fy atgoffa (wel, mymryn bach o leia) o olygfa agoriadol *Gadael Lenin*: 'Mae o dal yna. Dal yn ei briod le...?!'

Bod yn gynnil

Ceir defnydd effeithiol o gynildeb ar adegau. Pan fo'r tad (Burghart Klaussner) yn cyfarfod y fam am y tro cyntaf ers blynyddoedd yn yr ysbyty yna ni chawn wybod cynnwys y sgwrs rhwng y ddau – gwyh!

Nid yw pob ffilm Hollywood yn rwtsh pur dros ben llestri, ond diolch i'r drefn na chafodd *Good Bye Lenin* ei gwneud gan e.e. ambell i gyfarwyddwr Americanaidd didalent a kitsch. Byddai'r olygfa yn dangos y tad yn ymweld â'r fam ar ei gwely angau wedi mynd dros ben llestri ac wedi para am o leiaf ugain munud! Cynnil a chofiadwy yw'r gerddoriaeth hefyd heb lol melodramatig fel sydd mor gyffredin gyda rhai o ffilmiau Hollywood.

Perfformiad caboledig gan Florian Lukas (Denis) – yn enwedig tua'r diwedd fel y darlledwr newyddion gyda'i fwstas 'swyddogol'.

Wyddoch chi be?

Mae'r llyfrau hanes yn anghywir! Mae'r ras lygod drosodd. Sigmund Jahn – y *Kosmonaut* (Stefan Walz) ddaru olynu Erich Honecker ac mae miloedd o *Wessis* yn heidio i'r DDR am fywyd llai arwynebol a materol.

Felly, os yw eich peint yn gynnes a digymeriad, y tŷ coffi yn ddiflas a diffiach a'r dewis yn y sinema mor ragweladwy, yna cofiwch fod dewisiadau amgen yn ystod eich amser hamdden a bod modd dianc rhag hyn oll am o leiaf 116 munud.

Hyd yn oed os yw'r tywydd poeth wedi hen fynd a'r cynnig arbennig o 99 ceiniog wedi gorffen, bydd *Good Bye Lenin* yn eich difyrru am ddyddiau lawer ar ôl ei gwyllo.

Saith allan o 10. Cofiwch ymweld a www.pictiwers.com er mwyn cofrestru eich marc a datgan barn.

Darparwyd yr erthygl hon fel rhan o gynllun Cyfrannu ar y cyd rhwng BBC Cymru'r Byd ac Antur Teifi.

Am fwy o fanylion sut fedrwyd chi gael £30 am ysgrifennu cysylltwch â Jennifer Jones trwy e-bostio cyswllt@papurbro.org neu drwy ffonio 0845 602 3912.

Ar ben arall i'r lein

Mae'n anodd cael rhywbeth positif i'w ddweud am yr afonydd eleni. Gyda'r holl sychdwr prin ofnadwy ydi'r cyfleon wedi bod, ac ar amseroedd fel hyn mae gwerthu y ddeorfa yn amlygu ei hun. Mae'r stoc o frithyll yn enfys eleni a'r 'sgota' ar Lyn Dywarchen wedi bod yn arbennig. Mae rhai aelodau yn cwyno eu bod yn dal eu dau 'sgodyn' o fewn deng munud ac wedyn yn gorfod rhoi'r gorau i sgota. Dau 'sgodyn' mewn deng munud, ac yn cwyno – anodd credu yn tydi!

Dal yn brin yw'r afonydd o lif iawn, gan fod cisiau dŵr dros y glannau i ddenu'r cog ar sewin o'r môr. Ond, er y prinder o bysgod mae'n rhaid dal i gynllunio a pharatoi am y tymhorau i ddod. Un mater positif iawn yw fod Asiantaeth yr Amgylchedd am ganiatáu i'r gymdeithas ail-gydiad yn y cynllun gollwg sils. Gresyn o beth ein bod cisiau caniatâd gan adran o'r Llywodraeth i wella ein eiddo ein hunain, ond fel yna mae pethau yn y wlad yma – gormod o reolaeth sy'n tagu ewyllys rhywun ar adegau! Ond yn ôl at y cynllun sils, drwy hyn mae'n bosib cwtogi amser o ddeori wyau'r cog i pan mae'r pysgodyn yn dychwelyd yn ôl o'r môr o bump i ddwy flynedd a hanner.

Nid yw hyn wrth gwrs heb gost, cawn weld be fydd ymateb yr aelodau at gario 'mlaen a hyn pan fydd cisiau rhoi eu dwylo yn eu pocedi.

Nid yn unig mae'r cog a'r sewin yn afar eleni, mae cryn gwyn hefyd ynglŷn â'r torgoch. Nid oes gennyf ond cownt am rhyw ddwsin wedi eu dal, er bod y stoc yn iach iawn yn ôl y monitro sy'n cael ei gario allan pob dwy flynedd. Efallai fod safon y 'scoters' yn dirywio!! Dyma gyfle i ail-gydiad yn ein rhaglen o fagu'r

torgoch, fel bod rhai ar gael ar gyfer bwydlenni'r ardal. Bydd mwy ar hyn yn ystod y misoedd nesaf – ond bydd yn rhaid cael caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd eto!

Mae un o'r cynlluniau sydd wedi rhedeg hiraf yn hanes y clwb ar fin ei gwblhau, mae'n sicr eich bod wedi syrffedu ar darllen hanes Melin y Cim, ond gyda'r holl dwnneli i ystlumod, a lloftydd ystlumod, mae mwy o feddwl o'r 'slyms' na phobol mae gennyf ofn, ond fel yna mae pethau. Er hyn i gyd mae'r lle bron yn barod, a lle bendigedig sydd yno hefyd. Mae'n werth sefyll am rhyw funud bach ar y balconi a gweld y machlud dros Fae Caernarfon.

Un peth diddorol ddaeth i'r amlwg drwy'r gwaith ar y felin, roeddem i gyd dan yr argraff mai 1842 oedd dyddiad adeiladu'r lle, ond wrth dynnu rhai o'r hen goed daethpwyd ar draws distyn mawr derw, sydd yn dal yn ei le, gyda'r canlynol wedi ei naddu arno mewn llythrennau bras 'SYR WWW 1742' – teulu Glynllifon wrth gwrs. A oes rhywun a all roi mwy o wybodaeth ar hyn. Buaswn yn falch iawn o glywed.

Buaswn yn falch iawn hefyd o gael gwybod pwy sy'n taflu rwbél adeiladu mor rheolaidd ar dir y clwb ym Mhontrug – does gan rhai ddim parch o gwbl i harddwch y fro.

HUW PRICE HUGHES

LLUN

Melin y Cim

Antur Teifi

Wyt ti rhwng 16 a 25 mlwydd oed? Oes gen ti ddiddordeb mewn ysgrifennu? Os felly mae cyfle i ti ennill £30 drwy ysgrifennu erthygl i'r bapur bro lleol.

Am wybodaeth ar sut y gelli di gael dy dalu am ysgrifennu erthygl neu adolygiad cysyllta â thim y Rhwydwaith Papurau Bro:

mapgwynfor@anturteifi.org.uk

0845 602912

Rhwydwaith Papurau Bro, Antur Teifi, Adeilad Milford, Plas Gogerddan, Aberystwyth Ceredigion SY23 3EB



Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Heidio

07.38, ac yn fora arall o'r newydd, a diolch byth amdano dd'weda' i. A'r dyddiad? Ia, Hydref 14eg, y flwyddyn 2004 ac o'r ffenast yn y gegin mi welaf ar y lleindir cyfagos saith **jac do**; tri cheiliog **paun** ac un **baunas**, sef Branwen. Mae'r **ieir**, a Chobyn'r hen **geiliog**, yno hefyd. Mae 'ngwas coch i'n sefyllian ar erchwyn y dernyn glaswelltog, tra mae'r **ieir** yn galafantio ymhlith yr adar er'ill. Ia, buyd! yn bryfetach ac yn ddarna' o weddillion bora-fwyd'r hen Guto, ni allaf feddwl am un rheswm arall paham y maent wedi heidio yma'n blygeiniol i fod yn griu cywasgedig ac eto mor fodlon-braf eu byd!

Pan gyfyd y **jacdoaid**, gwnânt hynny'n sydyn, gan ada'l un **jac do**'n tîn-droi ar ben to'r hen feudy. Ei ddyletswydd ef ydy' gwyllo, neu efalla' bod hwn yn aderyn mwy mentrus na'r lleill!

Bûm yn gwyllo amball fora, a hynny ar gyrion Allt Rhiwth, sut mae **jac doaid** yn trefnu eu safleoedd pan fyddant wedi glanio ar ben wifran drydan. Dyna nhw'n dyfod at ei gilydd yn rhesiad ac yna daw **c'loman** i'w canol, gan beri i'r adar duon ei g'leuo hi ar adain am y nen, heblaw am un! Erys hwnnw ar ben y wifran! Y gwyliwr ydy' hwnnw ac ymhen rhai munuda' dychwel ei bartneriaid, ond erbyn hyn mae'r **g'loman** hithau wedi hedfan ymaith.

Yr hyn sy'n rhyfeddol ydy' bod yr un nifar o **jacdoaid** yn dychwelyd i'r fangra. A wyddent fod y **g'loman** wedi mynd ar ei thaith? A oes 'na ryw deilepathi yn bodoli rhwng 'y gwyliwr' a gweddill yr hen griw?

Yn yr un fan, ar fora arall, daeth tro arall i gynffon yr hanesyn, pan laniodd mwy nag un **coloman** wrth ymyl y **jacdoaid** ar y wifran drydan, a ffurfio'r patrwm canlynol: 1. **jacdo**; 2. **c'loman**; 3. **jacdo**; 4. **c'loman**. Y tro hwn, fel yn achos y lleindir ger Neuadd Glasgoed, cafwyd cymysgfa o adar, yn perthyn i ddau grŵp teuluol, ac wedi eu trefnu bob yn ail! Ond dyma nhw i gyd yn codi ar eu hadenydd, cyn dychwelyd yn un haid ar y wifran drydan, a'r un patrwm yn gywir eto, fel y tro cynt! A welsoch chi rhywdro r'wbath cyffelyb? Cofiwch ddal ati i wyllo!

Yn ei golofn 'Atgof a Chofnod. Detholion o'r dyddiau gynt' y mae Glan Rhyddallt, Llanrug, yn Yr Herald Cymraeg Chwefror 17eg, 1941 t.3 yn trin a thrafod 'Undeb hynod yr adar.'

Sylwais, ebe ef, *lawer tro ar haid o adar yn codi o'r cae gyda'i gilydd fel un, ac yn disgyn mewn cae arall fel un; ni welais i erioed y fath unoliaeth.*

Beth sy'n achosi hyn tybed? A oes swyddog yn eu plith yn rhoddi gorchymyn na chlyw, ac na ddeall neb ond hwy mohono? A oes ganddynt ryw arwydd cyfrin i hysbysu pawb ohonynt pa bryd i godi i'r eiliad gyda'i gilydd? Y mae'n fater anodd iawn ei esbonio, a chredaf nad oes neb yn ei wybod ond yr adar eu hunain. Onid oes cyfrinachau filoedd gan adar, anifeiliaid, a thrychfilod, na wyddom ni ddim ohonynt?

Yr unig beth a dd'wedaf, o sylwi'n fanwl ar adar pan fyddent yn gwmwl llwytlas yn yr awyr, nad oes unrhyw wrthdrowiadau yn digwydd, h.y. gedy pob aderyn ofod rhyngddo a'r aderyn nesa' ato.

Yn yr ail achos uchod, sef **jac do**, **c'loman**, **jac do**, **c'loman**, 'does dwy waith amdani, cyd-ddigwyddiad ydoedd y cyfan ac nid bwriadol oedd y trefniant a gaed. Credaf hefyd fod pob aderyn iach wedi'i freintio hefo llyg'id craff ac yn hyn o beth mae'i welediad heb fod yn hollol yr un fath â nyny, foda' dynol. Gwel yr aderyn y byd mawr o'i gwmpas mewn perspectif ehangach. Rhaid wrth hyn, gan mai ei brif nod mewn hyn o fywyd ydy' chwilio am fwyd. Unwa'th y gŵyr aderyn leoliad ei fwyd, bydd yn heidio yno, wrth y dwsina', wrth y cannoedd, a'r miloedd. Mae cae sy'n cael ei aredig yn atynfa i adar o bob math.

A'r telepathi ymhlith adar? Na! go brin! oherwydd mae'r ddamcania'th, er mor ddiddorol ydyw, ynghylch adar yn trosglwyddo negeseuon i'w gilydd, yn perthyn i dri degau'r ugeinfed ganrif ac heb rithyn o wirionadd ynddi. Credid hefyd erbyn saith degau'r ganrif ddiwetha' fod 'na faes magneteg wedi'i leoli yn ymennydd yr aderyn a hwnnw, yn ei dro, yn ei alluogi i drosglwyddo'i feddylia' i adar craill o'i gwmpas. Iesgob annw! Onid bwrw iddi i lunio ffuglen ym myd Natur ydy' peth felly? Ffwlbri noeth, a phlant dynion yn ceisio creu r'wbath newydd syfrdanol, sef creu meddylia' adar ar ddelw dyn ei hunan! Rhag cywilydd yn wir!

BRIWSION BYD NATUR
Dafydd Guto

AROLWG ADAR

Am y tro cyntaf o bosib yn hanes Eco'r Wyddfa dyma fynd ati i gynnal Arolwg Adar, gan ganolbwyntio ar deulu'r brain yn unig, sef 'sgrechod coed, piôd, brain coesgoch; jac doaid, cigfranod, brain tyddyn, brain llwyd ac ydfranod, a welwyd yn eich libart

rhwng mis Medi, a diwedd mis Tachwedd eleni. Yn ogystal gofynnir i chwi nodi drudwenod a welsoch. Mae'r daflen Arolwg wedi ei chynnwys isod. Os oes angen fwy-fwy o daflenni Arolwg arnoch tybed a wnewch adael imi wybod hynny ac mi wnafe eu danfon atoch. Gallwch weithio fel unigolion, neu mewn grwpiau. Mae'r Arolwg ar gyfer bob oedran. Diddorol fydd gweld, er enghraifft, faint o deulu'r brain sy'n ymweld â byrddau bwydo adar yn ein gerddi. A oes 'na aelodau o deulu'r brain, neu ddrudwenod, sy'n hel eu tama'd ymhlith adar eraill? Gellir gwyllo o'r gegin, llofft, neu fynd ar sgawt, gan ymweld ag meysydd agored a'r gwahanol warchodfeydd byd Natur rhagorol sy' o'n cwmplas. Danfonwch y dystiolaeth ataf os gwelwch yn dda erbyn diwedd mis Tachwedd, 2006. Gobeithir yn wir gyhoeddi'r canlyniadau yn Eco'r Wyddfa, rhifyn mis Ionawr, 2007. Bob hwyl, a llawer o ddiolch!

Arolwg Teulu'r Brain a Drudwenod

Medi hyd ddiwedd Tachwedd, 2006

Danfonwch at Dafydd Guto, Y Nyth, Neuadd Glasgoed, Llanrug LL55 3BB erbyn diwedd mis Tachwedd, 2006

Dyddiad.

Pa aderyn a welsoch?

Pryd?

Beth roedd yr aderyn yn ei wneud?

Unrhyw beth arall o ddiddordeb ynghylch yr aderyn?

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun

Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Silver STAR GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

O Siambar Selwyn

Manteisiaf ar y cyfle i ddiolch i nifer ohonoch, ddarllenwyr yr *Eco*, a fu mor garedig â dymuno'n dda i mi cyn Eisteddfod Abertawe, ac hefyd am eich cyfarchon yn dilyn yr Wyl.

Gan mai anerchiad a draddodir gan yr Archdderwydd bellach, a hynny ar ddydd y Cyhoeddi, ac ar ôl darllen crynodeb yn y *Daily Post* mae amryw wedi gofyn am gael gweld yr anerchiad llawn fel y'i traddodwyd o'r Maen Llôg yn Fflint.

Wrth ffarwelio â'n gilydd ar Barc y Faenol y llynedd, roedd nifer ohonom yn bur bryderus ynglŷn â dyfodol ein Prifwyl. Tybed fyddai 'na Eisteddfod i'w chyhoeddi ar gyfer 2007? Ac os cyhoeddi Eisteddfod, ymhle tybed y cynhelid hi?

Wel, rydan ni yma â gwên ar ein hwyneb ni, yn llawenhau y bydd 'na Eisteddfod yn 2007, ac mai ar dir Cymru y cynhelir hi.

Eisteddfod Sir y Fflint a'r Cyffiniau! Ac mae'n hyfryd cael cyhoeddi hefyd bod y Cyffiniau yn cynnwys y Cymry dros y ffin ar Lannau Merswy, Cilgwri, Caer a Manceinion, ac rydan ni'n diolch iddyn nhw am eu dymuniad a'u parodrwydd i gefnogi'r Eisteddfod.

Ga i hefyd fanteisio ar y cyfle i ddiolch, am y tro cynta o bosib yn gyhoeddus, i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am gytuno i sicrhau y bydd pob Cyngor o hyn allan yn cyfrannu'n flynyddol tuag at gost y Brifwyl, fel na fydd yna faich ariannol afresymol bellach ar unrhyw Gyngor yng Nghymru a fydd yn awyddus i gynnig cartref i'r Eisteddfod. Mae'n hawdd cwyno yntyd! Mae angen i ni ddiolch ar brydiau yn ogystal.

Un o'r profiadau mwya dymunol a gefais i yn ystod Eisteddfod Eryri oedd cael gwahoddiad i gyflwyno'r gwobrwyon yn Adran y Dysgwyr. Mi ddois i oddi yno yn teimlo'n hapus iawn bod 'na rai o ddifri yn awyddus i feistrol'n hiaith ni, ac i gystadlu yn ein Heisteddfod ni, ac i ddefnyddio'n hiaith ni yn naturiol yn eu bywydau bob dydd. Gwych hefyd ydi cael darllen ffrwyth eu llafur yng nghyfrol y Cyfansoddiadau bob blwyddyn.

Mae o'n galondid, ydi, bod 'na dros ugain mil o oedolion yn dilyn cyrsiau Cymraeg. Wrth gwrs, mae o'n galondid – ond rhaid i ni sylweddoli yr un pryd mai dim ond un y cant yn unig ydi'r nifer yna o'r oedolion nad ydynt yn siarad Cymraeg yng

Nghymru. A dydi pob un o'r ugain mil yna ddim yn parhau hefo'u cyrsiau. Ac eto, yn ôl yr adroddiadau, mae yna lawer mwy yn datgan eu diddordeb a'u hawydd i ddysgu'r iaith.

Cyfeiriwyd mewn llythyr yn y wasg rai wythnosau yn ôl at ymgyrch Bwrdd yr Iaith a'r Gweinidog dros Iaith a Diwylliant i geisio denu mwy o'r mewnfudwyr i ddysgu'r iaith. Gwych! Ardderchog! Ond ydi'r Bwrdd yn barod i sicrhau bod 'na ddigon o gyllid ar gael, a digon o diwtoriaid profiadol i hyfforddi'r dysgwyr yn rhad ac am ddim. Mae 'na nifer helaeth o'r di-Gymraeg wedi datgan diddordeb mewn dysgu'r iaith pe byddai amgylchiadau ar eu cyfer yn dderbyniol.

Ga i dalu teyrnged – ia, i Heddlu Gogledd Cymru. Rydan ni'n barod iawn i'w beirniadu nhw yn aml. Ers tua blwyddyn bellach, mae'n ofynnol i bob un sy'n ymuno â Heddlu Gogledd Cymru basio prawf mewn Cymraeg elfennol cyn iddyn nhw gael cynnig swydd. Hefyd maen nhw'n cael eu hannog i ddysgu'r iaith yn fwy trwyadl yn ystod eu cyfnod prawf o ddwy flynedd. Mae'r Prif Gwnstabl ei hun wedi dysgu'r iaith, ac mae o'n ei defnyddio am ei bod hi, medda fo, 'Yn ddyletswydd arna i i wneud hynny, am fod Cymru yn wlad ddwyieithog.' Gresyn na fyddai mwy o benaethiaid gwasanaeth-au cyhoeddus yn dilyn ei esiampl o.

Mae dyfodol ein hiaith ni yn dibynnu ar ein plant a'n pobl ifanc ni yn fwy na neb. Llawenydd ydi ymweld ag ambell ysgol a chlywed y plant, gan gynnwys nifer fawr o ddysgwyr, yn parablu'n naturiol yn Gymraeg. Ond mae'n siom hefyd o fynd heibio ambell ysgol arall, a hynny yng nghanol ein hardaloedd Cymreiciaf ni, a sylwi mai Saesneg ydi iaith yr iard. Os ydi plant yn chwarae drwy gyfrwng y Saesneg yna, yn anffodus, dydi'r Gymraeg ddim yn iaith fyw naturiol iddyn nhw. Cymraeg yn y dosbarth, Saesneg yn yr iard. Yn hollol groes i ddyddiau'r 'Welsh Not' ynte! Does 'na ddim pwrpas i ddysgu iaith heb wneud pob ymdrech i'w defnyddio hi ar bob achlysur.

Yn *Y Faner Newydd* yn ddiweddar, fy cyfeiriwyd at Fudiad Iaith Newydd i ddisgyblion ysgolion Cyfun. Yr arwyddair ydi: 'Gwna ymdrech tra'n siarad', ac o'i dalfyrru: GYTS. Dechreuodd y mudiad yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth, ac fe agorwyd cangen hefyd yn Ysgol Gyfun Gŵyr, Abertawe. Yr apêl ydi i ysgolion Cymru gyfan

fanteisio ar y cyfle i greu cangen o fudiad fel GYTS yn eu hysgolion hwy gyda'r gobaith y bydd yr iaith yn goroesi fel iaith gyfoes, ac yn tyfu i fod yn iaith mwy naturiol mewn cymdeithas yn hytrach na bod yn iaith addysg yn unig.

Arwyddair Ysgol Gymraeg Evan James, Pontypridd – awdur geiriau ein Hanthem Genedlaethol – ydi, 'O Bydded i'r Hen Iaith Barhau'. Gresyn na fyddai hwnna yn arwyddair i bob ysgol yng Nghymru.

Fe ddywedodd Bardd y Goron y llynedd – y ddysgwraig gyntaf i ennill Coron y Brifwyl. Fe dalodd hi deyrnged i'w chyd-ddisgyblion yn yr ysgol ac i'w chyd-fyfrwyr yn y coleg am iddyn nhw fynnu siarad Cymraeg gyda hi bob amser, a thrwy wneud hynny ei gwneud hithau yn Gymraes.

Mae'n hanfodol i ni sy'n rhugl yn y Gymraeg, siarad Cymraeg gyda'r dysgwyr. Dyna ydi eu dymuniad. Mae'n bwysig i blant

ar iard yr ysgol wneud hynny. I ddisgyblion a myfyrwyr ein colegau, ac i ninnau fel oedolion pryd bynnag yr ydan ni'n cymdeithasu â dysgwyr sy'n wirioneddol awyddus i ddysgu'n hiaith ni.

Wrth gwrs, mae'n bwysig dysgu iaith, ond mae'n bwysicach ei defnyddio hi. Marw fydd tynged iaith oni ddefnyddir hi.

Oes 'na Ddeddf Iaith ar y gorwel? Sut ddeddf a gynigir i ni tybed? Cofiw'n eiriau Hywel Teifi Edwards mor bell yn ôl ag Eisteddfod Genedlaethol, Aberystwyth 1992, 'Rhaid cael deddf i sicrhau hawl y Gymraeg i'r union statws â'r Saesneg. Dim mwy a dim llai.'

Ac yn y flwyddyn pryd rydan ni'n dathlu pen-blwydd ein Hanthem Genedlaethol yn gant a hanner oed, mae'n bwysicach i ni ddatgan heddiw yn fwy croyw nag erioed, 'O, BYDDED I'R HEN IAITH BARHAU'.



Pwyllgor Anabl Merched y Wawr

Aelodau o Is-bwyllgor Merched y Wawr er budd yr Anabl yn cyflwyno sîc am £2,600 i Lynne Garlick o Ambiwylans Awyr Cymru yn Ninas

Dinlle. Casglwyd yr arian yn dilyn dau weithgaredd yn ystod y flwyddyn, sef Distawrwydd Noddedig a Ffair Haf. Bu rhai o'r aelodau yn gwerthu nwyddau ar y Maes, Caernarfon ac ychwanegwyd £200 i'r swm uchod.

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill



Urdd Gobaith Cymru Tlws John a Ceridwen Hughes

Daeth yr amser unwaith eto i ni ystyried enwau ar gyfer y tlws uchod. Fel y cofiwch, mae'r Urdd wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws yn flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuenctid Cymru.

Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol:

- Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuenctid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi'r gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc.
- Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o Swyddfa'r Urdd.

Dylid ystyried y pwyntiau isod wrth enwebu unigolion:

- Dylai'r gwith fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n ymwneud ag ieuenctid sy'n dysgu'r iaith.
- Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i gyfunderfn addysg ffurfiol.
- Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuenctid (diwyllianol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuenctid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).
- Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuenctid

Os am ffurflen enwebu cysylltwch gyda Enfys Davies, Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth ar (01970) 613103, neu trwy e-bost: enfys@urdd.org.

Yn gywir
EFA GRUFFUDD JONES
Prif Weithredwr



Gyrru 'Mlaen

Y mae *Sgorio* wedi hen ennill ei blwy ar S4C, a rhaglen gynyddol boblogaidd erbyn hyn yw *Ralio*. Y mae'r gwellhad mewn technegau camera yn cyfleu cyffro, cyflymdra a pheryglon y gamp. Nid yn unig yr eiliadau ond mae'r llathenni (metrau) yn cyfrif hefyd. Partneriaeth yw ralio rhwng y gyrrwr a'r llywiwr - a hynny mewn camp ble mae'r annisgwyl yn llythrennol o gwmpas y gornel. Y mae'r rhaglen hefyd yn ein hebrwng ledled y byd i weld y raliwyr yn herio eira, tywod, gwres ac oerfel.

Rai blynyddoedd yn ôl bu storïau am ralio yn aml yng nghlofnau'r *Eco*. Roedd nifer o fechgyn lleol yn ymddiddori mewn 'trwsio' a 'gwneud ceir i fyny' a chaed sawl stori am wibio o gwmpas Pen Llŷn yn nhywyllwch nos. Aeth nifer o'r bechgyn hynny ymlaen i fod yn fecanics neu i sefydlu busnesau garej.

Y mae dau arall lleol yn cario 'mlaen y traddodiad, sef Ifan Rowlands a Dylan Thomas. Mae'r ddau yn ralio ers pedair blynedd bellach, ac felly yn gobeithio symud i fyny'r lefelau. Dylan sydd yn llywio y Peugeot 106, gyda Ifan yn sedd y llywiwr. Erbyn hyn mae pwyllgor cymdeithas ANWCC yn trefnu nifer o ralïau a thros gyfnod y rasmus mae pencampwriaeth i'r gyrrwr a'r llywiwr ym mhob dosbarth, yn seiliedig ar y pwyntiau a enillir ym mhob ras. Ar hyn o bryd mae

Dylan yn arwain ei ddosbarth ac Ifan yn drydydd yn ei ddosbarth yntau. Y flwyddyn nesaf, er mwyn dringo gris, fe fwriedir cystadlu mewn mwy o gystadlaethau. O reidrwydd mae hyn yn golygu cynnydd sylweddol yn y costau tannwydd a theiars a'r atgyweirio anochel.

Mae'r ardal yn ymwybodol iawn o sefyllfa criw rasio moto-beics Dafydd Tuff, a'r frwydr flynyddol i ddenu noddwyr. Y mwyaf y llwyddiant yr hawsaf denu noddwyr.

I helpu'r ddau raliwr mae Michael Roberts o Gwmni Delwedd ym Methel wedi camu i'r adwy. Bu Michael yn llwyddiannus yn sefydlu gwefan clwb pêl-droed Bethel a enillodd wobr ryngwladol. Mae Meic wrthi yn sefydlu y wefan www.ditrallying.co.uk i geisio denu noddwyr i'r ddau, drwy groniclo eu llwyddiannau, gobeithio.

Ar hyn o bryd mae Dylan ac Ifan yn paratoi at eu rali bwysig nesaf, sef y Cambrian Rally, fydd yn cychwyn yn Llandudno ym mis Tachwedd.

Yn ei waith bob dydd, mae Dylan yn ymwneud â chwmni gosod lloriau. Edrychwn ymlaen i'w weld yn rhoi ei droed i lawr - mewn llinell syth, gobeithio, a gyrru'r ddau i fyny ysgol llwyddiant ym myd cystadleuol ralio.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walïau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar

01286 830 805



MAE'R SAMARIAID ANGEN GWIRFODDOLWYR



YN EU CANOLFAN NEWYDD,
LLYS ONNEN, Ffordd y Llyn, Parc Menai

Tel: 01248 674 985

Cynhelir noson agored i ddarpar-wirfoddolwyr rhwng diwedd mis Medi, a dechrau mis Hydref eleni.

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

**WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

CHWILOTA

BLE MAE'R FFIN?



HANES CYNNAR CWMNI TRÊN BACH YR WYDDFA

Ar hyn o bryd, rhan o'm gwaith yn yr Archifdy yng Nghaernarfon yw catalogio casgliad swmpus o ddogfennau a chynlluniau yn ymwneud â cwmni Trên yr Wyddfa; llawer ohono yn dyddio'n ôl i'r dyddiau cynharaf, pan sefydlwyd y Snowdon Mountain Tramroad and Hotels Company. Bryd hynny, roedd y cwmni yn berchen ar y Royal Victoria a'r Padarn Villa (sef y Padarn Lake presennol).

Roedd gan y cwmni gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer Llanberis, a dim ond rhan o'r cynlluniau rheini oedd adeiladu rheilffordd i gopa'r Wyddfa. Gan mai'r cwmni oedd yn berchen y rhan fwyaf o'r tir rhwng y Victoria a Padarn Villa, sef y caeau ble'r adeiladwyd tai cyngor Llanberis, a hefyd yr holl dir o amgylch Castell Dolbadarn a'r ddôl, buan y mae rhywun yn sylweddoli faint o reolaeth oedd ganddynt ar unrhyw ddatblygiad o fewn ac ar gyrion y pentref. Er nad wyf hyd yma wedi dod ar draws yr holl fanylion, roedd bwriad gan y cwmni i ddefnyddio'r holl dir hwn i sefydlu cwrs golff! Pe bai'r syniad wedi ei wireddu, byddai gwedd hollol wahanol ar Lanberis heddiw! Meddyliwch mewn difri calon: gallai Cystadleuaeth Golff Agored Prydain gael ei chynnal yng nghysgod yr Wyddfa.

Merlod Victoria

Ond adeiladu'r rheilffordd oedd prif gynllun y cwmni, ac er fod y trên wedi dechrau dringo i fyny'r Wyddfa cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd Gwesty Victoria yn parhau i gadw ceffylau a merlod er mwyn cario teithwyr tua'r copa. Doedd yr hen ddull ddim wedi ei ddisodli'n llwyr gan yr injan stêm. Er hynny, mae'n amlwg fod cyfnod y ceffylau yn dirwyn i ben. Ymhlith papurau'r cwmni mae rhestr o geffylau a merlod a gedwid yn y Vic., gyda nodiadau ynglŷn â gwerthiant nifer ohonynt. Mae'r ddogfen wedi ei dyddio 1895. Gwerthwyd chwech o ferlod am £89. Enwau rhai o'r ceffylau a merlod eraill oedd: Charlie, Tommy, Gambler, Paddy (fe'i prynwyd ym mis Mai am £28, a'i werthu eto ym mis Hydref am £30), Penrose, Strawberry (a fu farw o ormodedd haul), Daylight (a fu farw o lockjaw), Pony (a ddisgynnodd i'r afon, a bu'n rhaid ei saethu), Bob, Mike, Doctor, Prince, Sunflower, Dandy ac Anglesea (a gostiodd £28 i'w brynu, ond a gloffodd, a bu'n rhaid ei werthu am £10). Dyna o leiaf bymtheg o geffylau a chwech o ferlod a gedwid mewn un gwesty.

Clwb Pêl-droed Llanberis

Ar ddarnau o bapur rhydd mae cofnodion blêr (mewn pensil yn aml) yn nodi prisiau rhent am gaeau o eiddo'r cwmni - a'r cyfan ar gyfer gemau pêl-droed. Does dim dyddiad ar bob un ohonynt, ond maent i gyd bron yn cyfeirio at Llanberis Football Club. Cyfeiriad y Clwb oedd Dinorwic Hospital, sy'n awgrymu mai'r Dr Mills Roberts oedd yn gyfrifol am y taliadau. Mae un cofnod yn cydnabod derbyn deg swllt am ddefnydd o'r Padarn Villa field. Ynglwm wrtho mae derbyneb am ddeg swllt arall a dderbyniwyd gan *W. R. Owen and others* am ddefnyddio'r un cae i chwarae pêl-droed.

Mae derbyneb arall wedi ei dyddio, ac mae'n ymddangos fod tîm pêl-droed Llanberis yn defnyddio tri o gaeau ar wahanol gyfnodau yn ystod 1897-98 (neu fod tri thîm gwahanol yn bod). Talwyd gini am ddefnyddio'r *Padarn Villa field for football during season 1897-98*. Ond talwyd hefyd ddeg swllt am ddefnyddio cae Blaen y Ddôl, a deg swllt arall am ddefnyddio *the Padarn Villa field next to the lake*. Roedd yn amlwg, felly, fod dau gae pêl-droed yn cael ei ddefnyddio yn y Padarn Villa.

Cawn fwy o bigion o ddyddiau cynnar y cwmni yn ystod y misoedd i ddod.

Cymanfa Ganu Capel Rehoboth

Y llynedd y cynhaliwyd y gymanfa arbennig hon, ond cyn i chwi ddechrau ffonio i'm cywiro, rhaid pwysleisio mai yn West Bangor, Pennsylvania y cynhaliwyd hi ac nid yn Llanberis! Daeth yr hanes unwaith eto gan Rhian Williams o Gaerdydd, ond rhywsut neu'i gilydd aeth yr adroddiad cyntaf ar goll yn y post, ac felly ymddiheuriadau am mai rŵan mae'r hanes yn gweld golau dydd. Bu Rhian ac aelodau eraill o'r teulu drosodd yn West Bangor am y trydydd tro yn ystod mis Hydref y llynedd. Y bwriad bob tro yw olrhain hanes aelodau o'r teulu a ymfudodd yno flynyddoedd yn ôl.

Yn bresennol yn y gymanfa roedd Ron Roberts - ei deulu o Benisrwaen, John Owen (Môn), a Mary Hamilton (Llanuwchllyn). *Nid yw eu cymanfa fel ein rhai ni; maent yn fwy o achlysur. Ar ddiwedd y gymanfa bydd pawb yn aros i sgwrsio dros banded, bechdan a chacen gri. Mae rhai yn teithio gan noedd o filltiroedd i fynychu'r gymanfa. Roedd yr arweinydd wedi teithio o Ottawa i West Bangor.*

O West Bangor teithiodd y fintai fechan ymlaen am Williamsburg, gyda'r bwriad o ymweld â chartref yr enwog Daniel Boone. Roedd ei fam,

Sarah Morgan, yn Gymraes. Yn anffodus roedd yr adeilad wedi cau, a theithiwyd ymlaen am Bala-Cynwyd, rhandir a werthwyd i Grynwyd Cymreig gan William Penn. Oddi yno, ymlaen am Bryn Mawr ger Philadelphia, tref hollol Gymreig ei naws, gydag enwau'r strydoedd yn atgoffa rhywun o lefydd yng Nghymru - Meirio, Wyn, Jones, Gwynedd a Bala.

Cyrraedd Williamsburg o'r diwedd, a chyfarfod â Robert Jeffrey a'i wraig, Nancy, *a'r ddau yn methu â chael digon o hanes Cymru ac ardal yr Wyddfa'n arbennig.*

Gyda diolch am yr hanes unwaith eto(!) Mae gan Rhian un cais - byddai'n hoffi mwy o wybodaeth am deulu John Evans o'r Waunfawr, a aeth i'r America i chwilio am yr Indiaid Cymreig. Faint o'i hanes cyn croesi'r Iwerydd sydd ar gael yng nghanolfan Antur Waunfawr tybed?

Cafnau Cerrig

Mae ffrind i mi yn chwilio am enghreifftiau o gafnau cerrig a ddefnyddid ers talwm (neu hyd yn oed heddiw efallai) ar gyfer dal bwyd anifeiliaid ar fferm - bwyd moch fel arfer. Roedd y cafnau'n cael eu naddu allan o un maen mawr, a gallai gweithiwr crefftus a dygn naddu cafn mewn diwrnod.

Tybed a oes enghreifftiau o'r math hyn o gafnau cerrig yn aros mewn congl buarth neu mewn bôn clawdd yn rhai o ffermydd y fro?

Yn ddiweddarach, wrth gwrs, dechreuwyd greu cafnau allan o lechfaen, rhai'n cynnwys gwaelod a phedair ochr; tebyg iawn i fedd cist a'i ben-ucha'n-isa. Mae cafnau o'r math hwn yn fwy cyffredin mae'n siŵr, ond byddwn yn falch o dderbyn gwybodaeth am rai o'r rheini hefyd.

Tŷ Llyffant

Daeth ateb i'r cais ynglŷn â llwybr llyffant sy'n paratoi i ddodwy ei rîfft drwy law cyfaill a gysylltodd â'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Yr awgrym, yn ôl Peter Howlett, Curadur yn yr Adran Fwydeg yno yw mai at y llyffant du y cyfeirir ato, sef 'toad'. Mae'r llyffantod du yn dilyn yr un llwybr yn ôl i'w manau dodwy, ac wedi addasu'n well na llyffantod 'frog' i fyw ymhell oddi wrth ddŵr. Yn wir, gallant fyw'n hapus dros filltir oddi wrth ddŵr, a dychwelyd i ddodwy'n unig. Tybed felly ai cyfeiriad at lwybr y llyffant du yn croesi i Lyn Pantafon sydd yma, ac mai enw cywir y tŷ ddylai fod 'Tŷ Llyffant Du'?


Dyna'r cyfan am y mis hwn. Y tro nesaf, hanes geni a marw dau frawd yr un diwrnod yn y Waunfawr, a mwy o ymateb am Gofeb Edge Lane, Lerpwl a Chofeb Benarth Llanfairfechan.

Cysylltwch ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r *Eco* â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn 01286 673515).

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

GORSAF BETROL

Esso **BERAN**

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740


LLANBERIS

YSGOL DOLBADARN


Chwaraeon. Cawson dywydd bendigedig ar gyfer y Mabolgampau a daeth llawer i ylio hefyd.



Yn y llun mae capteiniaid y tî uchaf ei farciau, sef Padarn, yn dal y gwpan.



Enillwyd medalau unigol y bechgyn am yr ail flwyddyn yn olynol gan Owain Fineron a Lee Walters, efo Gareth Pritchard yn dynn ar eu sodlau.




Mae tair merch yn rhannu tiws y genethod eleni, sef Kate Pritchard, Amanda Williams a Kerry Meek.

Anna White enillodd ras y mamau am yr ail flwyddyn yn olynol a'r Parch John Pritchard ras y tadau.



Capteiniaid balch Peris yn dal tarian y Gala Nofio

Gala Nofio. Cafwyd Gala Nofio lwyddiannus yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon cyn diwedd y tymor. Peris oedd y tî buddugol eleni. Enillwyd medalau aur y bechgyn gan Owain Fineron a Kurt Hellfeld efo Gareth Pritchard yn ail. Kate Pritchard oedd y ferch uchaf ei marciau ac Elinor Lampard ac Elliw Saynor yn gydradd ail.



Enillwyr y medalau unigol.

Ffair Haf. Diolch i bawb fu'n gweithio'n galed efo'r Ffair Haf. Cafwyd amser difyr, yn arbennig gan y plant fu'n pledu'r prifathro efo ysbwng gwlyb!! Mae'r elw yn mynd tuag at yr ystafell gyfrifiadurol.

Enillwyr y ras hwyaid oedd: 1. Mairwen Baylis; 2. L. Collins; 3. Jason Bee.

Diolch i fusnesau lleol am eu rhoddion tuag at y gwobrau.

Hanes y Staff. Ar ddiwedd y tymor roedd Anti June (Mrs June Fraser) yn ymddeol ar ôl bod yn goruchwylio'r plant dros yr awr ginio am 15 mlynedd. Gwahoddwyd hi i'r gwasanaeth diwedd tymor er mwyn cyflwyno anrheg a blodau iddi fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'i gofal o'r plant lleiaf a dymuno ymddeoliad dedwydd iawn iddi.

LLUN

Roedd wythnos gyntaf y gwyliau yn un brysur iawn i dair o'r ysgol gan eu bod yn paratoi ar gyfer eu priodasau. Bydd Bethan Davies yn dychwelyd ym Medi yn Mrs Rhys; Sharon Morris yn dychwelyd fel Mrs Davies ond bydd Llinos Jones sy'n therapydd iaith yn yr Uned yn y prynhawniau, yn cadw i'r un cyfenw ond yn ymgartrefu yn ardal y Bala. Dymunwn pob bendith i'r tair yn eu bywyd priodasol.

Fe fydd yn dipyn o newid byd i Mrs Bethan Jones ym Medi hefyd gan y bydd yn cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth. Mae Mrs Jump hefyd wedi ein gadael dros dro i weithio fel un o staff yr Awdurdod ym maes Addysg Feithrin.


Ffarwelio â Blwyddyn 6. Pob dymuniad da i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn yr ysgol uwchradd. Cofiwch alw i'n gweld.

GRADDIO:

Llongyfarchiadau i Aled Rhys Butler, Llanfairfechan, ar ennill gradd 2:1 mewn Gweithgareddau Awyr Agored a'u Rheolaeth ym Mhrifysgol Lancaster. Mae Aled yn wŷr i Mrs Hilda Williams, Rhos y Faenol a'r diweddar Mr a Mrs J Butler, Snowdon View.

DIOLCH. Dymuna Margaret Roberts, Bronallt, Olgra Terrace, ddiolch i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau a'r arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 60 oed.

...Parhad ar dudalen 11



BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

BRYNREFAIL

DIOLCH. Dymuna Megan Oliver, Gors, ddiolch i bawb – athrawon, ffrindiau, cymdogion a theulu – am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da yn dilyn y ddamwain gafodd ar ei beic. Maent wedi codi ei chalon a'i helpu i wella'n gyflym iawn! Diolch yn fawr iawn.

PROFEDIGAETH. Ar Orffennaf 25 daeth y newydd trist am farwolaeth Islwyn Jones, 3 Trem Eilian, yng nghwmni ei deulu yn Ysbyty Gwynedd yn 63 mlwydd oed.

Roedd Islwyn wedi treulio ei oes yn y pentref ac wedi cefnogi nifer o weithgareddau cymdeithasol lleol ac wedi bod yn aelod ffyddlon o gorau meibion Dyffryn Nantlle a Dinas Bangor. Dioddefodd gystudd blin yn ystod y misoedd olaf a bu ei angladd yn Amlosgfa Bangor ar 31 Gorffennaf. Cydymdeimlir yn ddwys â'i briod, Rhian, ac â lestin, Meinir a Marian a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn gydymdeimlad â Dafydd G. Ellis a theulu Gwledfa yn eu profedigaeth o golli brawd Dafydd, sef William Berwyn Ellis, a fu farw yn ei gartref yn Nolwyddelan ar 27 Gorffennaf.

ANRHYDEDDU.

Llongyfarchiadau i Robin McBryde, mab John a Diana McBryde, Bryn Llwyd, ar dderbyn yr anrhydedd Urdd Olydd yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe ar sail ei gyfraniad clodwiw i faes Rygbi. Yn ystod ei yrfa ryngwladol enillodd 37 o gapiau dros Gymru, y cyfanswm mwyaf i ogleddwr ennill dros ei wlad. Ein dymuniadau gorau iddo maes o law fel hyfforddwr.

EISTEDDFODOL. Rwy'n siŵr ein bod fel pentref yn falch o nodi llwyddiant Huw Euron, y baswr a lwyddodd i ennill ei ffordd i gystadleuaeth y Ruban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe, gan fod ganddo gysylltiadau amlwg â'r pentref – ei nain yn chwarae i Mrs Jennie Roberts, Ffrwd Madog a Bethan, Glandŵr, yn gyfnither i'w fam, Heulwen, a fyddai'n dod yn rheolaidd am wyliau haf i Tai Orwig pan yn blentyn. Mae Huw Euron hefyd, wrth gwrs, yn gymeriad hoffus yn y gyfres deledu *Pobol y Cwm*.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ganolfan nos 13 Gorffennaf. Mrs Jennie Roberts oedd Cadeirydd y noson ac ar ddechrau'r cyfarfod arweiniodd yr aelodau mewn defosiwn pwrpasol. Rhoddwyd croeso arbennig i'r siaradwr gwadd, Mr Rol Williams, Y Waunfawr, un o hogiau Brynrefail a chyn aelod o'r capel. Ei destun gogleisiol oedd 'Galifantio' ac aeth â ni ar daith i gyd y partion lleol a fyddai'n cynnal cyngherddau a nosweithiau llawen mewn neuaddau pentref ac ar hyd a lled Cymru. Aeth y daith â ni hefyd drwy fyd y cyfryngau yn

ystod eu cyfnod cynnar, gan sôn am sawl digwyddiad doniol a chymeriadau lliwgar o'r gorffennol. Bu cryn drafod ar y storïau difyr a diolchwyd i Rol am y sgwrs gan sawl un o'r gynulleidfa. Bydd y cyfarfod nesaf nos 14, 7 Medi, pryd y disgwylir Margaret Davies, Dwyran, gyda sgwrs ar y testun 'Caws Gorau Glas'. Croeso cynnes i bawb ymuno ar y noson.

OEDFAON MEDI

Medi 3 am 5.30: Parchg. Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon;
10 am 10.00am: Parchg. Ddr. Alwyn Roberts, Tregarth;
17 am 5.30: Mr Merfyn Jones, Caernarfon;
24 am 5.30: Mr John McBryde, Brynrefail.

Ffair Greiriau Ynys Môn

Maes Sioe Môn
Mona (ar yr A5)

Dydd Sadwrn a dydd Sul

Hydref 7 ac 8
10.00am – 5pm

Mynediad: £2.50

Parcio am ddim

Lluniaeth ardderchog

Arwerthwyr Creiriau a Hen Bethau o bob rhan o Brydain yn arddangos a gwerthu hynafion o ansawdd da

tad a thaid tynner, gofalus a charedig. Diolch am y llythyrau, cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau teimladwy. Diolch i'r Parchedigion John Pritchard a Gwynfor Williams am eu cymorth a'u gwasanaeth ac i Dr W. Munro am ei wasanaeth wrth yr organ. Diolch am y rhoddion hael o £1,050 tuag at Gapel y Tabernacl. Diolch arbennig i Dr Robin Parry a Dr Gwyn Williams a phawb ym Meddygfa Llanberis am eu caredigrwydd a'u gofal am Wyn ar hyd y blynyddoedd. Diolch hefyd i Dylan Griffith am ei ofal tyner a theimladwy a'r trefniadau trylwyr.

Cofio Cyfaill a Chyd-weithiwr

Yn enedigol o Gwm-y-glo, trigodd Wyn ym mro ei febyd trwy ei oes. Heb os nac onibai, dyn y bobl oedd Wyn. Yr oedd wrth ei fodd yng nghwmni pobl, naill ai yn ei garej yng Nghwm-y-glo, gyda'i gyd-weithwyr yma yn y Cyngor, neu gyda'i deulu bach clos.

Yr oedd Wyn yn hwyr yn cychwyn gweithio i'r Cyngor ac ar y dechrau roedd yn gasglwr rhenti ym Maesgeirchen. Ond, gweithiodd ei ffordd yn sydyn o fewn ychydig flynyddoedd, i fod yn Brif-Swyddog Rhent y Cyngor.

Er bod ganddo swydd a allai fod yn anodd ar brydiau, cofiwn am ei barch tuag at ein tenantiaid. Roedd wastad yn gwneud ei orau i wneud yn siŵr nad oedd yr un ohonynt yn cael eu troi allan heb fod pob carreg wedi ei throli.

Cofiwn Wyn fel un oedd wrth ei fodd yn sgwrsio, a hoffai pob un o'i gyd-weithwyr ef.

Cyn diwedd ei yrfa arloesodd

yn nodwedd amlwg yn ei gymeriad.

Nid ar chwarae bach y rhoddodd Wyn y gorau i'w swydd. Ystyriai hi'n anrhydedd i ddod i'r gwaith gan weld pob dydd o iechyd yn fendith.

Yn eironig ddigon ei grud-cymalau dychrynlyd gafodd y gorau arno yn y diwedd. Ychydig ar ôl yr ad-drefnu collasom Wyn o'r gwaith, ac ar 25 Mehefin diwethaf collasom ef o'r byd.

Bydd y staff yma yn ei gofio am ei hiwmor cynnil ac unigryw, ei gymeriad hawddgar (yr oedd yn bleser llwyr gwrando ar ei sgwrsio deallus) a'i allu i ddioddef ei boen heb rwnach na surni.

Cynhaliwyd ei gynhebrwng yng Nghapel Tabernacl, Cwm-y-glo, lle roedd yn flaenor. Cofiwn am ei weddw, Iris, ei fab Neil, Michelle a'i ŵyr, Ben, yr oedd ganddo gymaint o feddwl ohono.

Cofiwn amdano.

LLONGYFARCHIADAU i Kate, 2 Dôl Afon ar ei llwyddiant yn ennill tiws yng Ngholeg Meirion Dwyfor ac i bawb o blant y pentref a fu yn llwyddiannus yn eu arholiadau, gan ddymuno yn dda iddynt yn y dyfodol.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn adferiad buan i Carys, Stryd Newydd, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

PUMP CENHEDLAETH.

Llongyfarchiadau i Donna, merch Sharon o Lanrug, wyres i Ann a Richie, Dôl Afon a gor-wyres i Enid a Robin Price, Stryd Newydd, ar enedigaeth merch fach, Rebecca Lynne.

DIOLCH. Dymuna Carys, Stryd Newydd, ddiolch o galon am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adef.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Iris Rowlands, Glan'rafon, Neil, Michelle, Ben a Laura ar eu profedigaeth fawr a sydyn o golli gŵr, tad a thaid annwyl iawn.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

CWM Y GLO

MARWOLAETH. Yn sydyn yn Ysbyty Gwynedd, dydd Mercher 28 Mehefin, bu farw Alun Wyn Rowlands, Glan'rafon, yn 64 mlwydd oed. Er pan oedd yn fachgen bach, bregus iawn oedd ei iechyd, a phan adawodd yr ysgol a dechrau ar ei yrfa yn iard Chwael Dinorwig, bu raid iddo dreulio blwyddyn gyfan yn Ysbyty Llangwyfan. Pan gaewyd y chwael aeth i weithio i ffatri Peblig, Cernarfon, yna i Orsaf Bŵer Llanberis, a thros yr ugain mlynedd diwethaf bu'n gweithio yn Adran Tai Cyngor Gwynedd.

Ei brif ddiddordebau oedd chwaraeon. Bu'n gyfrifol am dîm pêl-droed Cwm-y-glo a thîm pêl-droed Ffatri Peblig yn eu tro. Bu hefyd yn gefnogwr brwd i'r timau pêl-droed y bu ei fab, Neil, yn aelod ohonynt. Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel y Tabernacl, lle roedd yn ddiagon.

Bu ei angladd ddydd Mawrth, 4 Gorffennaf, yng Nghapel y Tabernacl a rhoddwyd ef i orffwys ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parch John Pritchard a'r Parch Gwynfor Williams, gyda Dr W. Munro wrth yr organ.

DIOLCH. Dymuna Iris, Neil, Michelle a Ben ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Wyn, Priod,

yng Ngwynedd fel y sywddog rhent cyntaf i ymddangos yn y llys ar ei ben ei hun. Yr oedd wrth ei fodd yn sgwrsio gyda staff a barnwyr y llys sirol. Roedd ei natur onest, weithgar a'i awydd i ddysgu

.... Parhad o dudalen 10

LLONGYFARCHIADAU i Alun Vaughan a Jane Parry ar ddydd eu priodas, 16 Mehefin yng Nghapel Bethania, y Felinheli. DYMUNA Alun a Jane Vaughan ddiolch i'w teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu priodas.

LLONGYFARCHIADAU i Dr Paula Roberts, 8 Ffordd Tŷ Du ar ennill Doethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor. Erbyn hyn mae yn gweithio fel Ymchwilydd Gwyddonol yn y Brifysgol, yn cario ymlaen yr ymchwil ar ôl treulio pedwar mis yn yr Antartic.



Alun Vaughan a Jane Parry ar eu dydd priodas

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

GŴYL FFAIR NANT

Croeso i Bawb

Dydd Sadwrn, 16 Medi
Y Ffair am 12.00 o'r gloch
gyda Dafydd Cadwaladr

Syrca
Sioe Gŵn
Sêl Cist Car
Castell Bownsio
Ras Hwyaidd
Adloniant nos

Sul, 17eg
Cymanfa Ganu
yng Nghapel Rehoboth am 7.00
gyda

Chôr Meibion Dyffryn Nantlle
Arweinydd: Mrs E. Eames
Organydd: Mr G. Jones

Nos Fawrth, 19eg
Cwis yn y Vaynol Arms am 8.30

Nos Fercher, 20fed
Cystadleuaeth Pêl Dyblau yn y
Vaynol Arms am 7.30

Nos Wener, 22ain
Cystadleuaeth *Stars in Your Eyes*
Agored i bawb.
Plant am 6.0, oedoloin am 9.00

Nos Sadwrn, 23ain
Raffls a Limrics am 9.00
yn y Vaynol Arms

Rhaglen y Ffair 2006

Coginio:

Torth Wen; Teisen Foron; Bara
Brith; Teisen Blât (unrhyw ffrwyth);
Teisen Siocled, treiffl neu Daffi
Triog

Jam:

Pot jam unrhyw ffrwyth; Pot o
gaws lemwn.

Gwin a Gwirodydd:

Gwin Gwyn neu Goch; 'Sloe gin'
neu unrhyw wirod â blâs arbennig;
Cwrw.

Perlysiâu: Clwstwr o berlysiâu.

Fotograffiaeth:

Llun a dynnwyd ar ben yr Wyddfa;
Ffotograff o Nant Peris yn yr eira.

Celf:

Darlun o anifail anwes mewn
pensil; Arlunio neu baentio unrhyw
gyfrwng dim mwy na 20"x20".

Arddangos Blodau:

Arddangosfa flodau mewn tamaid
o bren; Trefniant Gwyrdd.

Gwau:

Dol neu anifail.

Crosio: Unrhyw eitem i fabi.

Clytwaith a Chwiltio:

Unrhyw eitem o glytwaith; Clustog;
Cwilt bychan i fabi neu blentyn.

Gwnio: Tegan meddal

Brodio: Cerdyn cyfarch yn dangos
pwyth croes, neu eitem yn dangos
unrhyw grefft nodwydd neu
beiriant gwnio yn unig.

Gwaith Coed:

Unrhyw eitem o waith coed

Gwydr Lliw: Unrhyw gyfrwng -
defnydd papur neu wydr

LIMRIG

1. Aeth Margaret a Tony un noson
2. Richard Mulcair aeth i weithio
3. Tri ffŵl o Nant fu'n potio

Plant

Coginio:

Dan 8: 6 cacen crispies siocled
8-12: Flapjac neu Quiche

12-16: Cacennau mafon

Crefft:

Dan 8: Cynllun cerdyn Nadolig

8-12: Cynllun unrhyw gerdyn

12-16: Collage gan ddefnyddio
reis neu basta.

Dan 8: Anifail wedi ei wneud allan
o glai

8-12: Unrhyw eitem wedi ei
wned allan o glai

12-16: Gardd fechan neu
Drefniant blodau mewn basged

Arlunio:

Dan 8: Fy ngardd i

8-12: Dad neu Ewythr yn gweithio

12-16: Tirlun

Gwnio:

Clustog wedi ei addurno

Fotograffiaeth:

Dan 8: Anifail fferm

8-12: Taid, Nain neu Anti

12-16: Tirlun lleol

Yr holl waith crefft a blodau
(Oedolion a Phlant) i gyrraedd
Capel Rehoboth, Nant Peris, cyn
12.00 o'r gloch dydd Gwener, 15
Medi.

Yr holl gynnrych ffres i fod yn y
Capel cyn 5.00 o'r gloch nos
Wener, 15 Medi.

Y limrigau i Llinos Haf cyn dydd
Sadwrn, 16 Medi

Am fwy o fanylion, cysylltwch efo
Gwenda Roberts ar (01286)
872177.

DYMUNA Appy, 14 Stryd Turner,
Llanberis, a Tom, Rhys, Rhiannon
a Dylan a theulu y ddiweddar
Nellie Owen (Blaen Nant), ddiolch
o galon am bob arwydd o
gydymdeimlad a ddangoswyd
tuag atynt yn eu profedigaeth o
golli mam, nain, hen nain a chwaer
annwyl iawn. Diolch hefyd am y
cardiau, y geiriau o gysur a'r
rhoddion hael i UNICEF. Diolch yn
arbennig i Derek Jones am ei
wasanaeth anrhydeddus ac i Mr
Gwynfor Jones o E.W. Pritchard,
Llanberis am ei drefniadau trylwyr.

Atgofion Ysgol Brynrefail

Un o bleserau'r haf yw ymweld â
theulu a ffrindiau ac ym mis
Mehfin buom ar aelwyd gwraig a
fagwyd yn Llanberis ac sy'n byw yn
Nottingham ers trigain mlynedd.
Rhyfeddais ar loywydder ei Chymraeg.
Mrs Heulwen Bealby yw ei henw ac
roedd cysylltiad clos iawn rhwng ein
rhieni yn ystod y tri degau gan fod ei
thad, yr annwyl Mr Robert Morris,
yn bennaeth Saesneg yn ysgol
Brynrefail (o 1915-1953) a fy nhad,
Ieuan James (1928-1968) yn gyd-
athrawon am dros chwarter canrif ac
yn gyfeillion mynwesol. Roedd Bob
Morris yn gymeriad hoffus ac yn
athro penigamp, yn beicio yn ôl ac
ymlaen i Lanberis ymhob tywydd am
38 o flynyddoedd. Chwilio am ei
sbeccol oedd yr orchwyl gyntaf
ymhob gwers a gwisgai lewys ei gown
yn dwll wrth ei defnyddio i lanhau y
bwrdd du.

Dyfynnaf y canlynol am Mr
Morris o lyfr Mat Pritchard, *Tros
Bont Penllyn*:

'Llywiodd ni drwy foroedd o
lenyddiaeth Saesneg o fform IV i
fyny, a'r paratoi gofalus, y dehongli
a'r triciau goslef a llais yn gwneud



Staff 1933

llinellau barddoniaeth a ym Mhrifysgol Nottingham y
chymeriadau nofelau yn gofiadwy
am amser go hir. "Analysis" yn codi
i'w huchaf gampau, arddull yn cael ei
holli a'i ddadansoddi, ac

egwyddorion gramadeg yn cael eu
sodro yn eu lle. Os byddem yn or-
selog efo geiriau, a thraethawd yn
drwm o chwydd, doi inc coch yn
boleit ar ddiwedd paragraff, "no
flowers, please". Dyn swil, swil, ond
o flaen dosbarth. Yno fe'i hanghofiai
ei hun a byddai ei ymadrodd yn
fachog a rhyfeddol. Yn y pumed
doi'r cyhoeddiad yn ddi-feth,
"Phasith yna ddim un ohonoch chi."
Edrychai'n ffrwsglyd ar ei watsh,
rhyfeddu a gweiddi, "Only five
weeks to the exam," a phan deimlai'r
twptra yn ddiahebol cychwynnai
am y drws gan floeddio, "Ych, dwi
am fynd i ganlyn wagan." (y swydd
salaf yn Chwael Dinorwig). A doi
yn ei ôl at ei ddesg a'r cysgod gwên
enwog ar ei wyneb, a'i bersonoliaeth
gynnes yn torri allan trwy storm a
tharannau.

Bu fy nhad ac yntau yn cario
llawer o gricedwyr ar fore Sadwrn yn
y BNY 90, sef yr Austin a fu yn ein
teulu am ddegawdau. Tynnwyd
cartwn ardderchog o'r BNY 90 yn ôl
bob sôn pan oedd aelod o'r
chweched dosbarth yn gwarchod
dosbarth yn ystod amser cinio gwlyb.
Gwyn, mab y diweddar R. E. Jones
Llanberis, oedd y cartwnydd, a'i
waith mor arbennig fel na fentrau
unrhyw athro ei chwalu oddi ar y
bwrdd du am ddyddiau. Mi rown
unrhyw beth am lun camera o'r
cartwn hwnnw gyda dwy gannwyll
yn lle lampau blaen!

Ond i ddod yn ôl at Mrs Bealby,
unig ferch Mr a Mrs Robert Morris.
Gadawodd Lanberis yn 1946 i
ddysgu Gwyddor Tŷ yn
Nottingham. Priododd gyda Harry
Bealby, a bendithiwyd hwy â thri o
blant, Walter, sydd erbyn hyn yn
fargyfreithiwr yn Birmingham;
Robert, dydd yn ddeintydd yn
Sheffield a Judith, sydd yn
ymgartrefu efo'i mam yn ardal
Woodthorpe o'r ddinas, ac sydd yn
gweithio mewn swyddfa
cyfnewidiwr stoc. Cawsom groeso
tywysogaidd ac roedd mor falch fod
ein mab ninnau wedi derbyn gradd

Er ei bod yn 81 mlwydd oed, bu
Mrs Bealby yn Llywydd Cymdeithas
Gymraeg Nottingham yn 2004 pan
ddathlwyd eu canmlwyddiant, ac
mae yn parhau fel Llywydd yn 2006
ac yn mynychu St Andrews and
Castigate Reform Church lle y ceir
pregeth yn y Gymraeg unwaith y
mis.

Ar ôl dod adref i Gaeathro bûm
yn chwilota am hen luniau a
gasglwyd dros y blynyddoedd gan fy
rhieni, Ieuan a Persis James. Mae'r
llun uchod o'r staff a dynnwyd yn
1933. Mae blynyddoedd eu
gwasanaeth mewn bracedi:

Rhes gefn (chwith i'r dde): Mr
Leslie Brookes (1933-35)

Mathemateg; Mr Robert Morris
(1915-53) **Saesneg; Mr Ieuan**
James (1928-68) **Ffiseg; Mr G.**
Powell Jones (1933-39)

Daearyddiaeth; Mr W. Glynne
Jones (1930-45) **Cemeg ac**
Ymager Corff; Mr William
Roberts (1932-36) **Math/Cerdd.**

(Rhes flaen): Miss Persis Hughes
(1933-40) **Gwyddor Tŷ; Miss**
Stella Griffith (1931-34)

Bywydeg; Mr Emrys Thomas
(1933-56) **Prifathro; Miss Olwen**
Lewis (1929-51) **Ffrangeg; Miss**
Gwyneth Evans (1930-46) **Hanes.**

Pan dynnwyd y llun yn 1933
roedd Mr D.R. Griffith (Lladin)
newydd ymadael i fod yn brifathro
yn Ysgol Botwnnog a daeth Mr
Powell Jones i swydd Mr Gwilym G.
Jones (neu Jill Jograffi i'r plant) ac
yntau yn athro daearyddiaeth o flaen
ei amser. Oes gan ddarlennwyr hyn yr
Eco storïau amdano tybed?

Aeth Mr Brookes i Seland
Newydd a Mr Glynne Jones yn
brifathro i Ysgol Mchynlleth yn
1945.

Roedd y pedair athrawes yn
ferched sengl a phryd hynny ni
fyddai'n arferol i ferched barhau yn
eu swyddi ar ôl priodi. Merch i
deilwr o Fangor oedd Stella Griffith
ac roedd yn hoff iawn o gerdded
Eryri ac yn aelod o'r YHA;
gadawodd yn 1934 i ddysgu ym
Manceinion.



Rhiannon Roberts a Heulwen Bealby

Roedd yn ofynnol i'r athrawon fyw yn lleol a mawr oedd eu cyfraniad i'r capel a'r gymdeithas ym Mrynrefail. Treuliai nifer ohonynt wyliau hanner tymor hwyliog ar Ynys Llanddwyn lle roedd darpar ŵr Olwen Lewis yn berchen ar un o'r bythynnod peilot. Byddai criw hefyd yn chwarae tennis wrth westy Fictoria yn aml ar nosweithiau o haf.

Roedd Miss Gwyneth Evans yn lojio ger siop Wil John a chyfrannai'n helaeth i fywyd pentref Brynrefail. Mecca i blant yr ysgol oedd Siop Wil John - pwysai fenyn, siwgr a the i gyd ar yr un glorian yn ôl y galw, heb sôn am unrhyw

ddeddf iechyd a diogelwch. Tyrrai'r plant yno amser cinio i brynu licrismôl a thynnu coes Wil John, gan ofyn am hadau byns neu gareiau welingtons. Craffai ef arnynt ac atebai gyda'i hanner gwên, 'Dim mewn stoc, hogia, ond mi ga i rai erbyn fory!' Bu'n ffyddlon iawn i Mam a fyddai'n prynu ganddo ar gyfer y cinio ysgol yn ogystal â'i gwersi coginio.

Atgofion fy mam, Mrs Persis James, yw'r rhain, a chafwyd pleser mawr yn trafod yr hen amser. A diolch i Mrs Bealby am gynnu fflam atgofion.

RHIANNON ROBERTS

YSGOL BRYNREFAIL

Ysgoloriaeth John Tudor 2006

Llongyfarchiadau gwresog i Jessica Parslow o Flwyddyn 11 ar ennill yr ysgoloriaeth anrhydeddus hon yn dilyn cyfweiliad yng Ngholeg Glynllifon yn ddiweddar. Gyda dros 70 o bobl ifanc wedi ymgeisio, tipyn o anrhydedd oedd derbyn y llythyr yn cadarnhau'r llwyddiant hwn. Dywedodd Pennaeth y Coleg, Dr Ian J. Rees, fod 'Safon yr ymgeiswyr a chwarteisi'r unigolion mewn cyfweiliad yn gredit i'w teuluoedd a'u hysgolion.' Bydd Jessica yn derbyn ei sicc gyntaf am £200 fis Medi.

Llongyfarchiadau a phob lwc iti yng Ngholeg Glynllifon.

Raffl Fawr yr Ysgol Trefnodd Cyfeillion Ysgol Brynrefail raffl fawr yn ddiweddar. Dyma'r enillwyr: £200: Mared Williams, Ceunant, Llanrug; £75: Mrs M. Davies, Penisarwaun; £50: Gwion Williams, Llanrug; Cinio i ddau yng Ngwesty Fictoria: Mr I. Roberts, Llanberis; Potel o chwisgi: Mr A. Tate, Llanrug; Poteli gwin: Mr Berry. Llongyfarchiadau i'n buddugwyr a diolch i bawb am gefnogi'r fenter.

Yr Wythnos Drawsgwricwlaidd

Dyma, o bosib, un o wythnosau prysuraf y flwyddyn i ddisgyblion a staff Ysgol Brynrefail. Cafwyd eleni eto amrywiaeth eang o weithgareddau a phrofiadau, o goginio bwyd tramor i gerdded llwybrau Glynllifon. Unwaith eto eleni bu'r wythnos yn llwyddiant gyda phawb, yn staff a disgyblion, yn barod iawn i rannu profiadau cofiadwy (a thrafod ambell swigen!!)



Taith feicio Blwyddyn 8

Rhoddion

£10: Er cof am Donald Jones, gan deulu 2 View Terrace, Deiniolen; Mrs Carys Parry, Gwynant, Llanrug; Mrs Margaret Cynfi Griffith, Deiniolen; Mr Derek Williams, Bron Eilian, Dinorwig; Er cof am Alun Wyn Rowlands, Glanrafon, Cwm-y-glo.

£6: Di-enw, Llanrug

£5: Selwyn Griffith; Penisarwaun; Danny a Megan Humphreys, Is Helen, Bethel; John, Gwen a'r teulu, Fron, Deiniolen; Gwyn Thomas, Treforfan, Waunfawr; Mrs Olwen Owen, Stad Tref Eilian, Waunfawr; Mr a Mrs R. Lloyd Griffiths, Groeslon Isaf, Penisarwaun; Megan Oliver, Gors, Brynrefail; Jean Roberts, Maes Padarn, Llanberis; Merfyn a Helen Morris, 29 Bro Eglwys, Bethel.

£3: Teulu Aled Rhys Butler, Llanfairfechan; Margaret Roberts, Bronallt, Llanberis.



Isod gwelir Mrs Breese (sydd i fod wedi ymddeol!!) yn arwain taith Blwyddyn 7 yn Amgueddfa Lechi Llanberis.



Dyma rai o arwyr Blwyddyn 9 yn cael egwyl haeddiannol ar ôl cyrraedd y brig!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

LLANRUG

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel y Rhos ar Fehefin 18fed i ddathlu a diolch am waith ymroddedig y Parch. Dafydd Lloyd Hughes a'i wasanaeth fel gweinidog. Bu'n gofalu am yr achos am ddeng mlynedd. Fe gyflwynwyd tysteb iddo ar y cyd â'r chwaer eglwys, Cysegr, ym Methel. Cyflwynwyd blodau i'w wraig, Mrs. Ann Hughes, hefyd. Cyfeiriodd y Parch Harri Parri yn ei adroddiad yn *Y Goleuad* at yr achlysur fel 'oedfa fywiog, llawn trydan'.

Cyfeiriodd hefyd at deyrnged a gyflwynodd Mr. Iolo Llewelyn i Mr. Hughes, yn diolch am 'yr holl weithgarwch rhyfeddol a fu: bywiogwyd y gwasanaethau, atgyfnerthwyd yr Ysgol Sul, cynyddodd rhif yr aelodaeth a helaethwyd a moderneiddwyd yr adeiladau. Llwyddwyd i ennill teuluoedd newydd i'r oedfaon ac etholwyd to newydd o flaenoriaid ifanc a brwdfrydig i arwain y gwaith.'

Yn y llun fe welwch Erwan wedi mynd i'r pulpud ac i gol ei daid gyda rhai o blant yr Ysgol Sul o'i gwmpas.

Diolch i chwi Mr. Hughes am eich gofal ohonom a dymunwn ymddeoliad hir a hapus i chwi a Mrs. Hughes. Pob bendith arnoch eich dau.

YR YSGOL GYNRADD. Bu'n ddiwedd tymor prysur arnom eto eleni. Aeth blwyddyn 3 a 4 i Gelli Gyffwrdd, lle cafodd pawb amser da. I Sw Bae Colwyn yr aeth blwyddyn 1 a 2 ac roedd pawb wrth eu bodd yno. Mwynhaodd y dosbarth derbyn eu hunain yn Llanberis, tra y cafodd y dosbarth meithrin amser da yn y Parc Coed Sipsi ym Montnewydd.

Cynhaliwyd mabolgampau llwyddiannus iawn gyda'r plant i gyd yn mwynhau cymryd rhan. Cyflwynwyd tystysgrifau i'r rhai a fu'n fuddugol a chanmolwyd y dysgyblion i gyd am eu hymdrech. Ar ddiwmod ola'r tymor, blwyddyn 6 fu'n gyfrifol am y gwasanaeth boreol. Bu'n gyfle iddynt ganu, actio a rhannu eu hatgofion. Dymunodd Mr Williams a'r staff yn dda iddynt wrth iddynt symud i Ysgol Brynrefail.

Treuliodd disgyblion blwyddyn 3 a 4 amser yn Rhyd-ddu lle bu cyfle iddynt fwynhau nifer healeth o weithgareddau amrywiol.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Carys Parry ar golli ei mam, a gyda Mrs Meinir Williams ar golli ei thad.

Erbyn i'r rhifyn hwn o *Eco'r Wyddfa* ddod o'r wasg, mi fydd gwyliau'r ysgol bron ar ben. Gobeithio eich bod i gyd wedi cael gwyliau hapus.

MERCHED Y WAWR. Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor nos Fawrth, 12 Medi, yn Neuadd Goffa Llanrug am 7.30 yh. Mae rhaglen ddiddorol ac amrywiol wedi'i threfnu a gwestai mis Medi yw Bethan Hughes, Rhuthun, gyda 'Gwaith Llaw'. Mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno â ni - dowch atom i fwynhau gweithgareddau a chael clonc gyda phaned o de.

DYMUNA teulu y ddiweddar

Morfina Cadwaladr, 7 Gwêl Fynydd, ddiolch o galon i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt a'r cyfraniadau hael a dderbyniwyd er cof am fam, nain a chwaer annwyl. Casglwyd cyfanswm o £500 a aeth tuag at Feddygfa Waunfawr/Llanrug.

DYMUNA Carys, Les a'r teulu, Gwynant, ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl a nain a hen nain hoffus iawn, sef Mrs Jennie Williams, Cae Corniog, Penisarwaun. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Tŷ Gobaith (Conwy).

CANLYNIADAU ARHOLIADAU. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i holl blant a phobl ifanc y pentref sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu arholiadau ysgol a choleg. Lwc dda i chi yn eich meysydd a'ch gyrfaoedd.

PRIODAS. Priodwyd Trystan Parry, mab Myfyr a Wendy Parry, â Melanie, yn Cyprus yn ddiweddar. Aeth sawl aelod o'r teulu a ffrindiau drosodd i ddathlu â hwy. Pob dymuniad da i chwi eich dau.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau mawr i Ifan Dafydd, Bryn Moelyn, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed fis Gorffennaf. Pob dymuniad da i ti.

PROFEDIGAETHAU. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i Lynn Jones, Gwenlyn, Stad Talybont, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei thad yn sydyn iawn yn Waunfawr ar 27 Gorffennaf, sef Mr Gwilym Roberts.

Yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â Meinir Williams yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr Islwyn Jones, Brynrefail. Hefyd i Maldwyn Jones, ei frawd, a Mrs Gwyneth Roberts, Cefn Elan, ei fam-yng-nghyfraith.

Cydymdeimlwn yn arw â Carys Parry, Gwynant, Ffordd yr Orsaf, a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl, sef Mrs Williams, Cae Corniog, Penisarwaun.

Bu farw Mrs Wenona Jones, Y Bala, ar 13 Awst. Bydd colled fawr i'w merch, Flo, a Tecwyn a'r wyrion a'r teulu oll.

Cydymdeimlwn yn ddwys â chi i gyd.

PROFEDIGAETH. Ar fore lau, 22 Mehefin, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Yvonne Pitts (Burslem gynt) o Y Gelli, Ffordd yr Orsaf, yn 47 mlwydd oed. Cafodd ei magu yn Clwt y Bont, Deiniolen, merch annwyl i Frank a Menai Burslem a chwaer hoffus Paul. Wedi gadael Ysgol Brynrefail aeth i weithio i Manweb. Ym mis Tachwedd 1981, wedi iddynt fod yn canlyn am bum mlynedd, priododd Yvonne â Malcolm yn Eglwys Llanbeblig, Caernarfon, a symud i fyw i Minffordd, Llanrug. Ond cafodd eu bywydau ei newid am byth ym mis Awst 1982, pan fu Malcolm mewn damwain erchyll lle y cafodd niwed difrifol i'w ben. Rhoddodd Yvonne ei swydd i fyny i



Gwasanaeth yng Nghapel y Rhos

ofalu amdano.

Roedd hi'n berson annwyl, tawel a medrus a bob amser yn rhoi ei theulu yn gyntaf. Roedd yn wraig ffyddlon ac yn ffrind gorau i Malcolm ac yn fam ragorol i Mark a Fiona, yn ferch-yng-nghyfraith arbennig i Bill a Gloria Pitts a ffrind triw i lawer. Yvonne oedd calon aelwyd Y Gelli a bydd colled enfawr ar ei hôl. Bu'n hynod ddewr drwy gydol ei salwch, cafodd wybod bod canser y fron arni 12 mlynedd yn ôl a hithau ond yn 36 mlwydd oed. Yn dilyn llawdriniaeth cafodd 9 mlynedd dda cyn cael yr ergyd drist bod y canser wedi dychwelyd a lledaenu. Ychydig iawn oedd yn ymwybodol faint a dioddefodd yn ystod y ddwy flynedd a hanner diwethaf gan nad oedd yn un am gwyno, dim ond brwydro'r affiechyd yn dawel ac urddasol gyda gofal tyner a diflino Malcolm.

Roedd nifer fawr o bobl yn bresennol yn yr angladd ar ddydd Mercher, 28 Mehefin, gan gynnwys nifer o'i chyn-weithwyr o Manweb. Cynhaliwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Gannon Idris Thomas yn Eglwys Llanbeblig. Yn dilyn y gwasanaeth rhoddwyd Yvonne i orffwys ym mynwent Llanrug. Yr arch-gludwyr oedd Paul Burslem (brawd); Mel Pitts (brawd-yng-nghyfraith); Tony Morris (ffrind) ac Elfyn Green (cefnder).

Mae Malcolm, Mark, Fiona a'r teulu yn dymuno diolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth fawr. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a diolch am y rhoddion hael o £1,100 er cof am Yvonne, sydd i'w rhannu rhwng Meddygfa Waunfawr a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, fel arwydd o werthfawrogiad am y gofal ardderchog a gafodd Yvonne ganddynt dros y blynyddoedd.

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Selwyn a Beti Roberts, Meifod, ar ddod yn Daid a Nain eto. Ganwyd merch fach, Freya, i Deian a Clare, chwaer fach i Harvey a gor-wyres i Mrs Bet Jones, Lyndale.

Cyfarchion a llongyfarchiadau mawr i Dyfed a Rhian Whiteside Thomas ar enedigaeth merch fach, Beth, chwaer i Robin, Anna a Guto, a wyres i Dafydd ac Eirianwen.

MARWOLAETH. Bu farw Emlyn Jones, Kernaud, Ffordd Glanffynnon, ddydd Mawrth, 22, yn Ysbyty Gwynedd ar ôl gwaelled hir a ddioddefodd yn ddirwgnach. Cydymdeimlwn yn arw â'i wraig, Kathleen, ei ferch, Mandy a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.



Malcolm Pitts yn cyflwyno sicr am £550 i Dr Huw Roberts ar ran Meddygfa Waunfawr ac i'r Professor Nick Stuart ar ran Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Casglwyd yr arian er cof am ei wraig, Yvonne, a dderbyniodd ofal arbennig gan staff y ddau leoliad.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 4ydd o Orffennaf.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadaol gan y Clerc.

Cofnodion Mehefin

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Cyfyngiad cyflymder Gwynedd. Bwriedir ymestyn yr ardal cyflymder 30 m.y.a. ym Mrynrefail o'r A4244, ger y cae chwarae, hyd at Meillionen ac am 90 medr i gyfeiriad Fachwen. A 50 m.y.a. o Lanrug i Lanberis ac o'r A4086 heibio i orsaf Beran ac ar y ffordd o'r A4244 i Ddeiniolen a Clwt y Bont. Dywedodd Len Jones eu bod, fel Cynghorwyr, wedi cyfarfod â Swyddogion yr Adran Briffyrdd ynglŷn â hyn a'i fod am i'r Cyngor ddiolch iddynt am eu heglurhad.

Atebion Gwynedd

Gwasanaeth Bws Caernarfon i Ddinorwig - Bydd contract newydd, pum mlynedd, yn dechrau o fis Hydref 2006. Pwysleisiodd Len Jones nad yw contract Ariva wedi dod i ben, cafwyd gwybodaeth anghywir yng nghyfarfod Mehefin. Gofynnodd am i hyn gael ei amlygu yn rhifyn nesaf *Eco'r Wyddfa*. Bro Rhiwen, Rhiwlas - Eir a'r blwch pren oddi yno gan MANWEB.

Gohebiaethau eraill

Cynhadledd flynyddol Un Llais. Cynhelir y gynhadledd ar y 14 Hydref yn Llandrindod. Penderfynwyd bod R. Len Jones a Richard Llwyd Jones yn cynrychioli'r Cyngor. Gwirfoddolodd Len Jones i baratoi dau gyflwyniad sef (a) Teithwyr, fel sydd yn chwarae Fachell a (b) Gwerthu Tai Cyngor.

Archwiliad blynyddol 2005/2006

Hysbysebwyd rhybudd o'r archwiliad ym mhentrefi'r gymuned.

Cofeb Huw Lloyd Edwards

Dywedodd Gwilym Williams ei fod yn awyddus i gysylltu â pherchnogion y Siop Gron er mwyn trefnu gosod y gofeb. Addawodd y Clerc ddanfôn gair at Kefin a Janet Harte.

Seisnigeiddio Enwau

Daeth llythyr i law oddi wrth y Cynghorydd Elwyn Edwards, Llandderfel, yn cyfeirio at enwau Cymraeg tai sydd wedi eu Saesnigeiddio, e.e. Bryn Llefrith yn *Little White House*. Ym mis Medi bydd Cyngor Gwynedd yn trafod sut i ddileu hyn. Bwriad Mr Edwards yw cynnig bod yn rhaid cael hawl cynllunio i newid cnw tŷ. Pwrpas y llythyr yw cael gwybod am newidiadau o'r fath yn y gymuned yma. Ni ellid meddwl am unrhyw newid o'r fath ond os gŵyr unrhyw un am engreiffiau o'r fath bydd y clerch yn barod i'w danfon ymlaen i'r Cynghorydd dan sylw.

Ychwanegodd y Cadeirydd a Mrs Pat Larsen at enwau lleoedd sydd wedi eu newid, fel Craig Llew, Brynrefail, yn Lion's Rock, a Twll Du yn Devil's

Kitchen.

Ysgol Bethel

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol tuag at ystafell gyfrifiaduron oddi wrth y Brifathrawes. Penderfynwyd peidio cyfrannu oherwydd buasai hynny yn gosod cynsail, gan bod tair ysgol arall yn y gymuned a hefyd bod y Cyngor wedi rhoi byrddau gwyn rhyngweithiol i'r ysgolion dair blynedd yn ôl.

Gofal a Thrusio Gwynedd

'Gwasanaeth Crefftwr'. Dyfynnir o'u pamffled:

'Mae gofal a Thrusio Gwynedd Cyf. wedi cychwyn ar wasanaeth newydd i gynorthwyo pobl hŷn i gyflawni mân waith trwsio o amgylch y cartref. Mae'r gwasanaeth Crefftwr yn wasanaeth dibynadwy a rhesymol ei bris, i alluogi pobl hŷn i drefnu gwaith trwsio yn hyderus ac uniongyrchol.'

Gellir cysylltu â'u Swyddfa ym Mhenygroes (01286 881 576) neu'r Swyddfa Ardal ym Mlaenau Ffestiniog (01766 830 777). Pwysleisiodd Len Jones bod y Clerc yn amlygu hyn yn *Eco'r Wyddfa*.

Trafodwyd eto sefyllfa teithwyr Fachell yn seiliedig ar lythyr Sharon Warnes, Cyfadran Datblygu, Cyngor Gwynedd, i Jane C. Evans, Un Llais Cymru. Argymhellodd Hefin Williams ofyn i Wynedd i ble y byddant yn mynd pan symudant o'r Fachell.

Cynllunio

Coed Bolyn Mawr. Dywedwyd bod y saethu'n parhau er bod y cais wedi ei wrthod gan Wynedd. Mae'r sŵn i'w glywed am gryn bellter.

Y tai newydd ger Bryn Tirion, Penisa'rwaun. Mae adeilad / sied yn cael ei godi rhwng un o'r tai a'r ffordd - gofyn i Wynedd a oes caniatâd i hyn. Bydd yr adeilad yma yn rhwystr i'r bwriad o wneud palmant ar hyd ochr y ffordd yma.

Cae Corniog Mawr, Penisa'rwaun. Daeth eglurhad Gwynedd, nad oes angen caniatâd cynllunio, yn uniaith Saesneg. Penderfynwyd ei ddanfôn yn ôl.

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y Mis

Adeiladu dau dŷ a mynedfa: Bryn Celyn, Clwt y Bont. Codi estyniad gwydr: 44. Bro Eglwys, Bethel.

Estyniad: Murmur y Nant, 14 Bron y Waun, Rhiwlas.

Codi adeilad amaethyddol: Cae Corniog Mawr, Penisa'rwaun.

Adeiladu tŷ a mynedfa: Plot cyfagos i Eglwys Santes Helen, Penisa'rwaun.

Estyniad: Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd

Estyniadau i:

Ael y Bryn, Brynrefail;
Bryn Ffynnon, Fachwen;
26. Bro Eglwys, Bethel;
4. Pant Sardis, Dinorwig;

1 Cae Cerrig, Deiniolen.

Estyniad ar y llawr cyntaf a garej: Talsarnau, Penisa'rwaun.

Addasu adeilad yn anedd preswyl: Nant Efa, Llanddeiniolen.

Ailgodi modurdy: 2. Bryn Hyfryd, Bethel.

Defnyddio yr eiddo yn fusnes edrych ar ôl plant (hyd at 12 mewn nifer): 3. Bron Helen, Clwt y Bont.

Ymestyn cartref henoed: Cartref Nyrso, Penisa'rwaun.

Addasu adeilad yn ôl i aneddle: 3 Mount Pleasant, Gallt y Foel.

Addasu adeiladau yn 12 uned wyliau: Fferm Tŷ Mawr, Llanddeiniolen.

Gwrthodwyd gan Wynedd

Datblygiad preswyl o 12 tŷ: Y Bont, Brynrefail.

Llwybrau

Derbyniwyd pris Mr D. R. Webb am dorri gwair ar lwybrau Penisa'rwaun.

Lwybrau Rhiwlas: dywedodd y Clerc ei fod yn disgwyl amcangyfrif oddi wrth Mr Cemlyn Williams, a'i fod hefyd am wahodd pris gan gcontractiwr arall. Penderfynwyd gadael y clerch i weithredu yn ôl y prisiau gorau.

Derbyniwyd ateb Gwynedd y bydd yr arolygwr ffyrdd yn gweithredu ar:

Gor-dyfiant o'r gerddi cyfagos yn culhau'r llwybrau cyswllt ym Methel. Y tri llwybr yw: - tu cefn i Gapel Cysegr, Tan Fynwent at y Siop a Tan Fynwent at Tan y Ffordd.

Gor-dyfiant hefyd ar lwybr Carreg y Gath 139, Rhiwlas ac mae'r cŵn wedi ailymddangos.

Cwlfert wedi blocio a ffosydd wedi cau ar lwybr 144/9, Tyddyn Bach, Bethel i Bonc, Y Felinheli. Penderfynwyd gofyn pryd y gwneir y gwaith.

Dywedodd Len Jones bod tyfiant o dir preifat yn amharu ar y llwybr o gae chwarae Clwt y Bont i Helen Villa - llythyr i Wynedd.

Materion Eraill

Canolfan Dryll, Deiniolen: Dywedodd Gwilym Williams bod rhes o geir yn parcio wrth ochr y ffordd eto. Ychwanegodd Len Jones y gellid gofyn am linellau gwyn yno pan yn ailfarcio'r ffordd o ganlyniad i'r gwyneb newydd - llythyr i Wynedd. (Dafydd Williams, Gofal Stryd, Pencadlys).

Gwnaeth Len Jones ddau bwynt:

- Bod deiseb yn cael ei harwyddo i gael lle parcio ar gyfer Tai Caradog a Rhes Marian, Deiniolen. Penderfynwyd cefnogi'r cais trwy lythyr i Wynedd (Adran Tai).

- Mae trigolion Rhydfadog yn gwarchod y gysgodfan bws gan nodi pa blant sy'n amharu arni.

Cefnogwyd ei awgrym i ddiolch iddynt yn *Eco'r Wyddfa*.

Awgrymodd Pat Jones y gellid defnyddio'r tir (lle gwrthodwyd y cais cynllunio) ger y Bont, Brynrefail, fel lle parcio - llythyr i Wynedd.

Cyfeiriodd Phyllis Ellis at y cais a wnaed eisioes i ddefnyddio'r lle cyn gwydd o flaen tai Bryn Tirion, Penisa'rwaun, i barcio - atgoffa Gwynedd.

Dywedodd Aled Green bod angen llinellau melyn o flaen Hafan, Penisa'rwaun - cais i Wynedd.

Gofynnodd Huw P. Hughes a fuasai'r Cyngor yn cydfynd â gosod mainc mileniwm Bethel yn y cae chwarae. Penderfynwyd gofyn caniatâd Gwynedd.

Cyfeiriodd Phyllis Ellis at y ffaith bod enw pentref Penisa'rwaun wedi diflannu oddi ar wal Erw Fair - atgoffa Gwynedd o'r adroddiad blaenorol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Penderfynwyd ar nos Fawrth y 25ain o Orffennaf, gan na fydd cyfarfod yn ystod Awst.

Yn dilyn y drafodaeth ar gais y Cynghorydd Elwyn Edwards yng nghyfarfod Cyngor Llanddeiniolen derbyniwyd y rhestr isod oddi wrth Mr Leslie Larsen, Penisa'rwaun, yn nodi yr enwau Cymraeg gwreiddiol a'r enwau Saesneg estronol.

Cymraeg Gwreiddiol

Cwm Idwal

Rhiwiau'r Caws

Twll Du

Clogwyn y Tarw

Coed Cerrig y Frân

Cwm Cneifion

Tryfan

Llwybr Gwregys

Cwm Dyli

Craig yr Aderyn

Elidir

Craig Cwrwgl

Y Foel Goch

Y Gludair Fach

Y Gwyliwr

Betws y Coed

Rhaeadr Ewynnog

Capel Currig

??

Cwm Dyli

Llwybr y Mwynwyr

Llwybr Bwlch y Moch

Saesneg Estronol

= Idwal Slabs

= Devil's Kitchen

= Cribyn Facet

= The Mushroom Garden

= The Nameless Cwm

= Heather Terrace

= Teyrn Slab

= Pillar of Elidir

= The Nameless Peak

= The Cantilever

= Swallow Falls

= The Ricks and Racks

= Miner's Track/ Miners' Track

= PYG Track

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

WAUNFAWR

Roedd cysylltiadau lu â'r Waunfawr yn Seremoni Coroni'r Bardd yn Eisteddfod Abertawe. Mae gwreiddiau'r Bardd Coronog, Eigra Lewis Roberts, yn fferm y Garreg Fawr, gan mai yno y ganwyd ac y magwyd ei diweddar fam, Gwaenferch, yr adroddwraig enwog.

I'w chyfarch ar y llwyfan gwelwyd Meg Elis, sydd yn byw yn y pentref, a Dylan Iorwerth, un arall a fagwyd yn y Waunfawr. I gloi'r cyfan, mae Myra, gwraig yr Archdderwydd Selwyn lolen, yn un o ferched y Waun yn ogystal.

MERCHED Y WAWR. Cynhelir cyfarfod agoriadol y gangen yn y Ganolfan am 7.30 yh nos lau, 28 Medi, pryd y ceir 'Taith ar Draws y Paith' yng nghwmni teulu'r Nant. Croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd.

Y CLWB 300. Dyma enillwyr mis Gorffennaf: £40: Elfyn Griffith, Blaen y Nant; £25: Carmon Pierce, Snowdonia Park Hotel; £10: Mrs Ann Jones, Haulfryn. Enillwyr Awst oedd: £40: Mr R. McDaid, Lloches; £25: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; £10: Mr Tegid Pritchard, Min y Grug.

CLWB BOWLIO. Cynhaliwyd noson wobrwyo'r Clwb ym mis Mehefin yn y Ganolfan. Roedd yn noson ardderchog gyda bwffe wedi ei baratoi gan Cerid McKinnon.

Yr enillwyr oedd:

Tarian er cof am Mr T.A. Thomas (yn cael ei chyflwyno gan Mrs A. Thomas): 1. Emyr Evans; 2. Idris Evans.

Cwpan (i ferched) gan Garej Pant Waun: 1. Pearl Williams; 2. Catherine Jones.

Tlws (i ddau) Gwalia Garej, Caeathro: 1. Sion P. Jones ac Alan Brown; 2. Hilda Williams ac Idris Evans.

Diolchodd Catherine i Joe a Dafydd am drefnu noson mor ardderchog. Mae'r Clwb wedi cael tymor da iawn - dod yn ail yng Nghynghrair Gwynedd.

Cynhelir y Clwb yn y Ganolfan bob pwn dydd Mawrth am 2.00 ac yn y nos am 7.00, a hefyd pwn lau am 2.00 a nos lau am 7.00. Rydym yn glwb cyfeillgar iawn ac yn falch o groesawu aelodau newydd. Os am fwy o fanylion cysyllter â Joe Large (Ysgrifennydd) ar 650242, neu Dafydd Price (Cadeirydd) ar 870724.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar 6 Gorffennaf, aeth yr aelodau am drip i Bortmeirion. Cafwyd pryd ardderchog yn Castell Deudraeth ac yna mynd i lawr i'r pentref am dro. Roedd yn bawn

braf iawn a phawb wedi mwynhau eu hunain. Bydd y cyfarfod nesaf ar 7 Medi, pryd y ceir sgwrs gan Mrs Hazel Carpenter ar 'Baentio ar Ddefnydd'. Croeso cynnes i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod yn Festri Eglwys y Waun am 1.30 o'r gloch, bawn lau cyntaf yn y mis.

LLONGYFARCHIADAU.

Llongyfarchiadau i Derec a Lis Williams, Bryn Beddau ar ddod yn ddaid a nain i ŵyr bychan. Ganwyd Llion Parri i'w merch, Sioned a Mark Feaver, brawd bach i Owain Parri.

Ganwyd mab bychan, lanto, i Diane ac Ioan, Stad Dôl Erddi, brawd bach i William ac ŵyr i Dafydd a Llywela, Tref Eilian a gor-ŵyr i Mr a Mrs Gwynedd Williams, Bro Waun.

Daeth ŵyr bach arall i Dafydd a Llywela a gor-ŵyr i Gwynedd a Nansi Williams. Ganwyd Kian Paul i Fiona a Paul. Croeso i'r ddau gefnder bach.

Merch fach, Ella Grug, a anwyd i Jen a Julian, Angorfa. Bydd ei chwiorydd mawr, Beca, Rhiannon a Megan wrth eu bodd yn helpu mam.

Ganwyd merch fach, Erin, i Ellen, Stad Ael y Bryn, wyres fach i Eirian, 8 Ael y Bryn ac Elwyn Jones.

PRIODAS. Dymunwn bob hapusrwydd i Avril Charge, Lliffon, ar ei phriodas â Dylan Williams o Ddeiniolen. Llongyfarchiadau i chi eich dau.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol i Gavin Thomson, Bro Waun, ar gyrraedd ei ddeunaw oed.

Dathlu cyrraedd ei 80 oed y bu Mrs Annie Thomas, Gilfach, Stad Tŷ Hen. Dymuniadau gorau a phob dymuniad da i chi, Mrs Thomas.

Bu Mrs Olwen Owen, Stad Tref Eilian yn dathlu pen-blwydd arbennig. Dymuniadau gorau i chi a diolch am eich cymorth gyda'r Eco.

DYMUNA Olwen ddiolch i'w phlant, teulu, cymdogion a



Enillwyr y Tlws (i ddau): Sion P. Jones ac Alan Brown, gyda Hilda Williams ac Idris Evans yn ail.



Pearl Williams, enillydd Cwpan Pant Waun Garej, i ferched. Catherine Jones oedd yn ail

ffirndiau am y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

CANLYNIADAU'R ARHOLIADAU.

Llongyfarchiadau i'n pobol ifanc i gyd ar eu llwyddiant yn yr arholiadau pwysig. Dymunwn yn dda iddynt yn y dyfodol.

Dymunwn yn dda i bob un, o'r ieuengaf i'r hynaf, fydd yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a swydd ar ddechrau'r tymor newydd ym mis Medi.

LLONGYFARCHIADAU i Gwyn Thomas, Treforfan, ar lwyddo yn yr arholiadau i fod yn ddeintydd. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd mewn deintyddfa ym Mhenrhyndeudraeth.

DYMUNA Gwyn ddiolch am y cardiau, y rhoddion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ôl graddio o Gaerdydd.

DYMUNA cyfoedion Eigra Lewis Roberts yn y Waun sy'n ei chofio yn dod i'r Garreg Fawr, ac yn aelod o barti cyd-adrodd gyda

hwy, ei llongyfarch ar ennill y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

ADREF O'R YSBYTY. Anfnwn ein cofion cynnes at Mrs Janet Smith, Rhoslan; Mr Wyn Griffith, Ger y Nant a Mr Richard Owen, Bro Waun, gan obeithio eu bod yn teimlo yn well wedi cael dod adref o'r ysbty.

Da gweld bod Mared Rees, Tŷ Awelog, wedi cael tynnu'r plaster caled a bod bawd ei llaw yn gwella wedi iddi dorri'r asgwrn.

Croeso adref o'r ysbty yn Lerpwl - ble cafodd driniaeth i'w galon - i Dylan, mab bach Martin a Rhian Williams, Stad Tŷ Hen. Da gweld ei fod yn gwella.

PROFEDIGAETHAU. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Eirian Jones, Bro Dawel, yn ei phrofedigaeth drist o golli ei mam.

Brawychwyd yr ardal gyda marwolaeth yr heddwas Steven Nesfield, Bryn Argoed. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod, Helen, ei blant, James, Fiona ac Emma, Mrs Beatrice a Mr Humphrey Roberts, ei fam a'i lys-dad, ei frawd, John, a'r teulu oll yn eu colled enfawr.

Yn frawychus o sydyn bu farw Mr Gwilym John Roberts, Llwyn Celyn. Mae cydymdeimlad dwysaf trigolion y pentref gyda'i briod, Sheila, ei ddwy ferch, Eira a Mai Lyn, ei fab, Tony, a'r teulu oll yn eu colled dirst.

Cydymdeimlwn â Mr Keith Jones, 4 Ael-y-bryn, yn ei brofedigaeth o golli modryb a oedd yn agos iawn iddo.



Emyr Evans, enillydd Tarian Goffa T.A. Thomas, gyda Idris Evans yn ail.

Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfu'r Cyngor ym mis Mai gyda'r Cyngh. Arwel Thomas yn y gadair. Croesawodd bawb i'r cyfarfod gyda chroeso arbennig i Mr. Dafydd Einion Jones, Swyddog Adfer Bro. Cafwyd cyflwyniad cryno a diddorol iawn gan Mr. Jones ar sut y gellir gwneud cais am arian ar gyfer prosiectau yn y fro. Yn dilyn ei arweiniad, bydd y cynghorwyr yn mynd ati i ystyried gwahanol bosibiliadau yn yr ardal.

Gan fod hwn yn gyfarfod blynyddol, etholwyd y Cyngh. Dafydd Whiteside Thomas yn gadeirydd, gyda'r Cyngh. Eryl Whiteside Roberts yn is-gadeirydd. Diolchwyd i'r Cyngh. Arwel Thomas am ei waith, yn arbennig gyda'r holl welliannau yn y fynwent a'i ymroddiad i waith y Cyngor yn ei swydd fel cadeirydd. Diolchodd yntau i'r cynghorwyr am eu cefnogaeth ac i'r clerc am ei chydweithrediad hithau yn ystod y flwyddyn.

Cafwyd Adroddiad ariannol am y flwyddyn 2005/2006 gan Goronwy Hughes a diolchodd y Cadeirydd iddo am ei waith trwyddal.

Yng nghyfarfod mis Mehefin adroddwyd fod Pwyllgor Cynllunio Gwynedd wedi gwrthod cais Tan y Coed Uchaf i drosi, addasu ac ymestyn adeilad yn dŷ.

Gofynnwyd i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd newydd fod yn gynrychiolwyr Cyngor Cymuned Llanrug yng nghyfarfodydd Un Llais Cymru. Gofynnwyd i'r clerc ohebu eto i geisio cael gwybod pa bryd fydd gwahanol waith yn cael ei wneud yn y pentrefi.

Cyfrannwyd £1,010.20 i Neuadd Gymuned Cwm y Glo – sef taliad blynyddol costau'r neuadd i Gyngor Gwynedd.

Cafodd Seindorf Arian Llanrug gyfraniad o £500.

Yng nghyfarfod Gorffennaf yn ysgol Cwm y Glo, croesawyd Mr. Alun Ffred Jones AC a chyflwynodd ef rai materion pwysig sydd ganddo yn ei fwriadau ar gyfer yr etholiad nesaf. Cyfeiriodd at yr Awdurdod Iechyd, yr Awdurdod Heddlu,



troseddu yn y gymuned, tai fforddiadwy ac Addysg.

Mae'r gwaith blynyddol o dorri a chlirio'r llwybrau cyhoeddus wedi ei wneud gan Mr Dafydd Lloyd Owen a diolch iddo am hynny.

Mae pryder wedi ei fynegi fod ceir yn parcio ar y palmant mewn rhai stadau yn Llanrug. Gyda siom derbyniwyd gohebiaeth gan Adran yr Amgylchedd yn dweud na fydd biniau baw cwn i'w cael wedi'r cyfan – er eu bod wedi eu harchebu fisoedd yn ôl bellach. Prinder staff roddwyd yn reswm am hyn. Bydd angen parhau gyda'r bwriad hwn gan fod llanast cwn yn ddrwg iawn mewn rhai mannau o bentref Llanrug.

Cafwyd gwybod yng nghyfarfod mis Awst fod Pwyllgor Cynllunio Gwynedd wedi gwrthod cais i godi modurdy yn 8 Ffordd Glanffynnon, Llanrug.

Mae nifer o faterion yn dal i bryderu'r cyngor – dylid cael bariau i ddiogelu'r mynediad i'r parc sglefrio yng Nghwm y Glo. Mae safle Ffenestri Celtic yn dal yn ddolur i'r llygad ac hefyd yn fater o bryder am Iechyd a Diogelwch plant sy'n chwarae yn ac wrth ymyl y safle.

Daeth i sylw'r Cyngor fod pobl ifanc yn camddefnyddio Cae Chwarae Pwll Moelyn ac mae hefyd sbwriel o bob math yn cael ei adael yno dan y coed. Bydd y Cynghorwyr yn cynnal cyfarfod yn y cae chwarae a gobeithir cael cefnogaeth rhieni a thrigolion cyfagos i drafod gwelliannau yn y parc.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi prynu cysgodfan bws newydd i Gwm y Glo gyda gobaith y bydd yn cael ei werthfawrogi a'i barchu gan bawb.

Mae'r Heddlu am gynnal cyfarfod cyhoeddus yn Llanrug yn ystod mis Medi yn lle yr un a ohiriwyd dro yn ôl. Ni chafwyd

dyddiad hyd yma.

Mewn gohebiaeth, addawodd Cyngor Gwynedd y bydd gwelliannau yn cael eu gwneud yn fuan rŵan – y ffos o Bryngwyn i lawr i Glyntwrog; addasu palmantau ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn neu sgwter; torri coed a thacluso safleoedd. Croesawyd hyn yn fawr.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fedi 19eg yn y Sefydliad Coffa yn Llanrug

YR 'ECO' I BARHAU

Er mai nifer fechan o gyfrannwyr a chefnogwyr selog yr *Eco* ddaeth ynghyd i'r Sefydliad Coffa, Llanrug, ar nos Fercher, 12fed o fis Gorffennaf, yr oedd digon o wirfoddolwyr yn bresennol i sicrhau parhad y papur bro. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau gan gefnogwyr eraill oedd yn methu bod yn bresennol, a chafwyd addewidion i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan gadeirydd yr *Eco*, Arwel Jones, a diolchodd i'r cyfryngau am roi sylw i'r argyfwng yn hanes y papur. Eglurodd fod oblygiadau ariannol yn golygu y byddai'n rhaid i'r papur barhau mewn rhyw ffurf neu'i gilydd hyd fis Mawrth 2007, ond fod nifer o agweddau cadarnhaol wedi amlygu eu hunain yn ystod y dyddiau diwethaf. Derbyniwyd nifer o lythyrau gan wahanol unigolion o wahanol ardaloedd o fewn bro'r *Eco* oedd yn cynnig eu hunain i helpu i ysgwyddo'r baich.

Pwysleisiodd Arwel yr angen i ffurfio pwyllgor a fyddai'n gefn ac yn gymorth i'r tîm golygyddol. Yr oedd nifer a fu'n dal swyddi gwahanol gyda'r papur yn dymuno seibiant haeddiannol, a diolchwyd iddynt am eu gwaith dros nifer helaeth o flynyddoedd, rhai ohonynt o ddyddiau sefydlu'r *Eco*. Diolchwyd yn arbennig i Arwel a oedd yn dymuno peidio parhau fel Cadeirydd.

Gwirfoddolodd nifer o'r rhai oedd yn bresennol i fod yn rhan o dîm golygyddol, a threfnwyd iddynt gyfarfod yn fuan cyn i'r rhifyn nesaf o'r papur ddod o'r wasg. Mae manylion llawn am yr holl dîm golygyddol i'w cael ar dudalen 2.

Etholwyd hefyd nifer o rai eraill i fod yn aelodau o bwyllgor gwaith yr *Eco*, gyda Geraint Elis o Fethel yn Gadeirydd, a Gareth Jâms, hefyd o Fethel, yn is-gadeirydd. Bydd Goronwy Hughes yn parhau fel trefnydd ariannol. Bydd cyfarfod o'r pwyllgor hwn yn cael ei gynnal yn fuan i dderbyn adroddiad ariannol blynyddol yr *Eco*.

Os oes unrhyw un arall o ddarllenwyr yr *Eco* yn dymuno bod yn aelod o'r tîm golygyddol, yn aelod o'r pwyllgor gwaith neu yn fodlon helpu mewn unrhyw ddull arall, cysylltwch ag unrhyw un o'r swyddogion a restrir ar dudalen 2.

A'r gweddill ohonoch? Wel, o leiaf daliwch ati i brynu ac i ddarllen yr *Eco*.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

cysylltwch â Mantell Gwynedd

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfinedig drwy Warant 3420271

PRYD I BAWB
01286 673190

Arlwyo Allanol yn
unrhyw leoliad neu
yn ein tŷ fferm

Achlysuron Arbennig:

Bedydd
Priodas
Penblwydd Priodas
Angladd
Parti Gwaith
Cinio Busnes

Cerid Mackinnon
Fferm Plas Tŷion, Llanrug



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PENISARWAUN

YR YSGOL GYMUNED.

Llongyfarchiadau i gyn-ddisgyblion yr ysgol a fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau. Pob dymuniad da i blant blwyddyn 6 sy'n cychwyn yn yr Ysgol Uwchradd a chroeso mawr i'r newydd-ddyfodiaid.

CLWB YR HENOED. Enillydd Pêl Bonws Loteri mis Gorffennaf oedd Mrs Nansi Jones, Meillionydd. Llongyfarchiadau.

Mae gwibdaith wedi'i threfnu ddydd Sadwrn, 9 Rhagfyr, gan gychwyn am 10.30, aros ym Metws-y-coed am baned ac yna ymlaen i Westy'r Sportsman ym Mhorthmadog am Ginio Nadolig am 1.30. Ceir cyfle wedyn i wneud ychydig o siopa. Felly cofnodwch y dyddiad ar eich calendr neu yn eich dyddiadur.

DATHLIADAU. Llongyfarchiadau i Arwel a Carys, Cae Eboni ar achlysur eu Priodas Ruddem ar 11 Awst.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mr a Mrs Robert Lloyd Griffiths, Groeslon Isaf, ar achlysur eu Priodas Aur, hwythau hefyd ar 11 Awst - a dydd pen-blwydd Mrs Griffiths.

DIOLCH. Dymuna Arwel a Carys ddiolch i Olwen a Dafydd a'u teuluoedd am benwythnos i'w chofio a diolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion.

Yr un modd dymuna Mr a Mrs R. Lloyd Griffiths ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r parti yng nghartref y ferch ym Methel.

Dymuna Olwen a Tom Williams, 8 Maes Garneidd, Bethesda, ddiolch yn ddiffuant i'r teulu a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r blodau ar achlysur eu Priodas Ddiawnt ar 22 Ebrill. Diolch arbennig i Mrs Paul, y Cartref Nyrsio am y wledd a'r anrhegion ar ben-blwydd Tom yn 99 oed. Diolch o galon.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Jean a Gwynfor, Tai Croesion, ar ddod yn Nain a Thaid unwaith yn rhagor. Ganwyd mab bychan, Jac, i Llion a Sara a brawd bach i Lauren ac Owain. Pob bendith i chwi fel

teulu.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf ac Awst a dyma'r enillwyr lwcus:

Gorff: Ruth Morris, Bwthyn Foel Gron, Deiniolen; Carol Jones, Yr Ysgol Gymuned; Marina Jones, Tyddyn Arthur.

Awst: Dilys Williams, 5 Llys y Gwynt; Iago Thomas, Cricieth; Robin L. Griffith, Groeslon Isaf.

Diolchir i Leslie Larsen am drefnu Taith Gerdded hynod ddiddorol i'r ychydig a ddaeth i weld rhyfeddodau natur a mannau hanesyddol o gwmpas Llanberis.

Gobeithio fod y Calendr yn mynd 'o law i law' a bod y gwerthiant yn mynd yn dda. Bydd rhagor o weithgareddau yn cael eu tefnu o hyn i'r Nadolig a hyderir y cawn eich cefnogaeth.

PROFEDIGAETHAU.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu Cae Corniog yn eu colled fawr ym marwolaeth Mrs Jennie Williams, priod cariadus y diweddar W.J. Williams, mam annwyl Carys a'i phriod Les (Llanrug), a nain hoff lan a'i briod, Helen, Elan ac Alan a hen nain i Tomos, modryb arbennig i Keith a chwaer-yng-nghyfraith Blodwen Pritchard, Llys y Gwynt. Derbynier ein cydymdeimlad llwyr.

Anfonir ein cydymdeimlad dyfnaf hefyd â theulu 2 Cefn Coed (gynt). Yn dawel yn ei gartref yn 5 Stryd Hir, Gerlan, Bethesda, bu farw Arthur Parry. Cydymdeimlir â'r teulu oll.

SIOEAU. Llongyferchir y rhai fu'n llwyddiannus gyda'u hadar a'u hanifeiliaid yn yr amrywiol sioeau amaethyddol. Bydd gwobrau lu yn dod i'r pentref hwn yn flynyddol.

ARHOLIADAU. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau a phob bendith i'r dyfodol.

YSGOL SUL BOSRA. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, 10 Medi am 10.00. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Estynnir ein cydymdeimlad llwyr â Mrs Norah Lloyd a'r teulu, 14 Dôl Elidir, Llanberis, yn eu colled fawr ym marwolaeth Bob Lloyd. Ef oedd Cadeirydd Pwyllgor Cymanfa Deiniolen a'r Cylch a bu'n organydd ac Arweinydd y

Gân droeon. Dyma'r trydydd aelod gwerthfawr i'r pwyllgor ei golli o fewn blwyddyn: y Trysorydd a'r gymwynaswraig ryfeddol, Jean Parc Jones; yr Ysgrifennydd diwyd a ffyddlon, Donald Jones, ac yna Cadeirydd cadarn a cherddorol, Bob Lloyd. Tri aelod oedd yn caru 'Y Pethe'. Erfynnir arnoch chwi, bobl ifanc, i ddod at yr ychydig sy'n weddill i ysgwyddo'r baich ac i barhau i gario'r gwaith ymlaen i'r dyfodol.

APÊL Y CAPEL. Cynhelir 'Ras Peli' ddydd Gwener, 15 Medi ar Afon Seiont, Cwawiau. Mae'r peli ar werth am £1 y bêl gan aelodau'r Pwyllgor. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

CARNIFAL. Bu wythnos y Carnifal yn hynod llwyddiannus a diolchir i'r rhai fu'n trefnu'r gwahanol weithgareddau. Bu clo bendigedig i'r wythnos gyda Chymanfa Ganu dan arweiniad Arwel Jones yn Eglwys Santes Helen. Cafwyd eitemau gwefreiddiol gan Gôr

Eryri, Llanrug, a Chôr Plant yr Ysgol Gymuned.

PLYGU'R ECO. Rhyddhad mawr oedd cael clywed am barhad yr Eco wedi Cyfarfod Cyhoeddus calonogol yn Neuadd Goffa Llanrug.

Plygir rhifyn Hydref yn Neuadd Eglwys Santes Helen nos Iau, 28 Medi o 5.00 o'r gloch ymlaen. Dyma gyfle i chwi garedigion yr Eco i gyfrannu rhyw 2 awr y flwyddyn tuag at ein papur bro. Dowch i helpu'r ffyddloniaid - mae angen gwaed 'ifancach' arnom. Er mwyn yr Eco - Dowch! DOWCH! **DYMUNA** Carys, Les a'r teulu, Gwynant, Llanrug, ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl a nain a hen nain hoffus iawn, sef Mrs Jennie Williams, Cae Corniog. Diolch hefyd am y rhoddion hael tuag at Tŷ Gobaith (Conwy).

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr

Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Mae
ECO'R
WYDDFA
yn chwilio am
golofnydd
Cornel Y Plant.
Diddordeb?
Cysylltwch ag
Alun Ellis ar
(01286) 650 761

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Y GANOLFAN YMWELWYR NEWYDD SBON DANLLI, A'R CIAFFI, AR GOPA'R WYDDFA

Nid oes yr un genedl wedi sôn mwy am ei mynyddoedd na chenedl y Cymry.

Dyfyniad o'r erthygl 'Y Mynyddau Mawr' (gan) y diweddar Wynford Vaughan Thomas. Tir Newydd Hydref 1936 t.5.

Yn ystod y mis hwn tynnir i lawr yr adeilad a elwir yn gaffi ar ben yr Wyddfa ac adeiladu canolfan ymwelwyr, a chiaffi newydd sbon danlli. Bwriad y Ganolfan newydd, a adeiladir yn y flwyddyn 2007, ydyw rhoi cyfle i ymwelwyr o bob oed a gallu corfforol i ddysgu mwy am arwyddocâd y mynydd fel adnodd hamdden, amgylcheddol a diwylliannol unigryw. Bydd y Ganolfan hefyd yn darparu gwybodaeth am y tywydd, cyngor ar lwybrau i'w dilyn i lawr y mynydd, ystafelloedd ymolchi a thoiledau yn ogystal a darparu lluniaeth a chysgod.

Sut mae hyn i gyd o ddiddordeb i ni fel ardalywyr? Ar ran darllenwyr ECO'R WYDDFA, y deunawfed dydd o fis Gorffennaf eleni, danfonwyd nifer o gwestiynau at Aneurin Phillips, Parc Cenedlaethol Eryri, a chafwyd atebion y pedwerydd dydd o fis Awst gan David Archer, Pennaeth Gwasanaethau Cadwraeth, Parc Cenedlaethol Eryri. Diolchir iddynt am ein goleuo.

(a) *Sut adeilad fydd o?* A luniwyd darluniau o'r adeilad arfaethedig?

Ateb David Archer: Bydd gan yr adeilad waliau cerrig (gwenithfaen) a tho crib â ffenestri gwydr panoramig, a chaiff ei godi ar ôl troed yr adeilad presennol. Roedd y dyluniad ymgynghoriad cyhoeddus manwl yn 2003, a chafodd ganiatâd cynllunio yn 2004.

(b) *Faint o Gymry ieuainc ac oedolion o'r cylch y gobeithir eu cyflogi ac a oes 'na furiad yn ystod y blynyddoedd sydd ar ddysod i gysylltu hefo pobl ieuainc yn Ysgolion Uwchradd y dalgylch er mwyn eu denu i weithio ar gopa'r Wyddfa, gan warchod ein treftadaeth, a chynnig inni ychwaneg o syniadau gwreiddiol?*

Ateb D.A.: Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa fydd yn gyfrifol am reoli'r adeilad, ac fe fydd yn cyflogi hyd at wyth o bobl i weithio yn yr adeilad ar yr adegau prysuraf. Mac'r mwyafrif o'r rhai a gyflogir gan Gwmni'r Rheilffordd, ar y rheilffordd yn ogystal â'r copa, yn bobl leol. Rydym wedi cysylltu ag ysgolion lleol ynglŷn â'r project, ac mae ysgolion yn Llanberis a Beddgelert nawr yn ymwneud â gosod capsiwl amser yn sylfaen yr adeilad.

(c) *Beth a ddigwydd hefo disodli'r hen adeilad - ai gweithwyr lleol, neu*

weithwyr o fanau eraill yng Nghymru fydd yn ymgymryd â'r gwaith disodli ac adeiladu o'r newydd?

Ateb D.A.: Prif gcontractwr y project yw Mowlem/Carillion, ac mae ei swyddfa leol ym Mae Colwyn. Mae'n gyfrifol am gyflogi is-gcontractwr ac mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru. Bydd dros 60% o'r llafur a'r deunyddiau a ddefnyddir yn yr adeilad newydd yn hanu o Gymru.

(ch) *Beth a gynhwysir yn y Ganolfan Ymwelwyr newydd ac yn anad dim byd arall a fydd y Gymraeg yn cael ei dilyn le yno, e.e. a ddefnyddir technoleg fodern, hefo sgriniau, - a'r holl ddefnyddwyr wedyn yn pwyso botymau, a chael yn eu dewis iaith weld lleoliadau, ran dangos enwau llynnoedd, mynyddoedd, cribau, daeareg yr ardal, a thu hwni; a arddangosir gwrthrychau o fyd Natur, ran adar, planhigion, pryfed, ymlusgiaid, pysgod, (torgoch yn arbennig), a.y.b.; a fydd yno ddarluniau, a gwybodaeth sy'n olrhain hanes copa'r Wyddfa, (drwy gyfrwng cardiau post yn un peth, - y mae cannoedd o'r rhain wedi eu gadael yng Nghasgliad Tan y Ffordd, sy'n Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac at ddefnydd pobl Cymru; y mae darluniau gwych o'r Wyddfa gan ffotograffwyr lleol, a chasgliad arbennig, ond ei ddefnyddio, yn Archifdy Gwynedd; beth hefyd am lenyddiaeth sy'n dynodi ffeithiau diddorol, megis bod y cerdyn post cyntaf darluniadol yng ngwledydd Prydain hefo darlun bychan o'r Wyddfa arno?*

Ateb D.A.: Rhoddir sylw penodol i ddehongliad yn yr adeilad, a bydd yr holl wybodaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, oherwydd bod ôl troed yr adeilad newydd wedi'i gyfyngu i un yr adeilad presennol, mae'r lle sydd ar gael at ddibenion dehongliad braid yn gyfyngedig, ac rydym yn gwbl ymwybodol o'r ffaith y bydd yr adeilad yn orlawn ar yr adegau prysuraf.

Paratowyd cynllun dehongli, ond yn anffodus dim ond copi Saesneg sydd ar gael. Gresyn wir! A dyna ni! Rhai ffeithiau.

Beth a feddylwch chwi ddarllenwyr ECO'R WYDDFA o hyn i gyd? Y mae Apêl Copa'r Wyddfa, (Tŷ Hyll, Capel Curig, Conwy LL24 DS0, yn parháu ar agor, a'u bwriad bellach ydy denu mwy o nawdd a'u galluogi i gyflawni gwelliannau o gwmpas yr adeilad. Bu i nifer sylweddol ohonoch gasglu arian er mwyn gwireddu'r freuddwyd o weld Canolfan teilwng o'r enw hwnnw ar gopa 'brenhines Eryri', sef yr Wyddfa. Cafwyd cymorth hael Llywodraeth Cynulliad Cymru at y



gwaith o fynd ati i ail-ddatblygu Copa'r Wyddfa. Ond mi ddechreuodd yr ymgecr'u'n barod ynghylch pa ddeunydd y dylid ei gynnwys ar do'r Ganolfan newydd. Ydy'r freuddwyd, a'n gobeithion, barod yn deilchion? Onid beth sy' tu mewn i'r adeilad sy' o bwys, h.y. y gweithgarwch a gynhelir yno? A'r cerrig o Bortiwgal? Beth sy' o'i le yn hynny, meddech chwi? Do, fe

allforiwyd llechi o Lanberis ar un amsar led-led y byd. Mae gweithwyr gwenithfaen Portiwgal ishio byw hefyd! Beth am daro gair atom?

Yr Wyddfa- ff.d/g. Wynford Vaughan Thomas



DINORWIG
Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir
Dinorwig. Ffôn: 870292

DINORWIG

LLONGYFARCHIADAU. A'r gwyliau yn tynnu tua'r trefyn, dyma ni yn wynebu ar dymor newydd. Longyfarchiadau i'r ifanc a wnaeth yn dda yn yr arholiadau ac sy'n wynebu ar fywyd newydd yn y coleg neu mewn swyddi, ac wrth gwrs i'r plant a fydd yn cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf.

Pob lwc i holl blant yr ardal i'r dyfodol.

WEDI BOD YN YR YSBYTY. Drwg oedd gennym ddeall for Mrs Laura Williams, Tan y Fron, wedi syrthio yn ei chartref ac wedi gorfod mynd i Ysbyty Gwynedd ac wedyn i Ysbyty Eryri, Caernarfon. Gobeithio y byddwch yn gwella yn lled fuan.

CYFLE NEWYDD. Y mae cryn amser ers y bu inni weld Derek Williams, Bron Elidir, allan ar y ffordd. Ond braf yw ei weld wedi cael cyfle newydd drwy fod yn berchen ar feic modur bach a hyn yn rhoi annibyniaeth iddo i

twynhau ei hun. Fel arfer, mae wrth ei fodd yn cael sgwrs hefo hwn a'r llall ond yn anffodus cafodd ddamwain, trodd y beic drosodd ac fe dorrodd Derek ei fraich.

Braf yw deall ei fod yn gwella a gobeithio y cawn ei weld yn fuan ar y ffordd unwaith eto. Brysia wella, Derek. Yr ydym yn colli cael sgwrs ac ambell ddadl hefo chdi ar y ffordd.



Derek ar y ffordd efo'i feic modur bach.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CAEATHRO

CYDYMDEIMLWN â theulu a chyfeillion Mrs Elizabeth (Bet) Roberts, Monfa, a fu farw ychydig amser yn unig wedi ei phen-blwydd yn 80 oed.

SEFYDLIAD Y GALON. Diolch i ymdrechion Vera Roberts, mae trigolion Caeathro wedi cyfrannu £86.45 at waith ymchwil Sefydliad y Galon. Da iawn, pawb ohonoch.

YMDDEOLIAD. Llongyfarchiadau i Nia Jones, Y Dderwen, ar ei hymddeoliad o'i gyrfa yn dysgu plant. Bydd yn gorffen ddiwedd tymor yr haf yn Ysgol Tan y Castell, Harlech.

APÊL CRONFA CANOLFAN Y CAPEL. Diolch i'r British Horse Society am eu rhodd o £60. Hefyd roedd cyfanswm y comisiwn ar werthiant gemwaith 'Tlws' a'r gwerthiannau eraill, yn y noson a drefnwyd gan Glwb y Merched, yn £270.

NEWYDDION Y CAPEL. Fel canlyniad i'r cyfarfodydd a gynhaliwyd cytunwyd i arbrofi efo 'cyd-lynnwyr pob hanner tymor' er mwyn gwella apêl yr Ysgol Sul.

Eisoës mae pedair athrawes wedi gwirfoddoli. Pe ceid dau enw arall, DIM OND UN WAITH Y FLWYDDYN y byddent ar ddyletswydd. Hefyd, y flwyddyn nesaf bydd dau ddosbarth - iau a hŷn/uwchradd.

Dyma batrwm y gwasanaethau yn ystod mis Medi a dechrau Hydref:

- 3: 10.00 Richard Lloyd Jones
- 10: 11.00 Ysgol Sul
- 17: 10.00 Parch Trefor Jones (Bedydd)
- 11.00 Ysgol Sul
- 24: 11.00 Ysgol Sul
- 1 Hydref: 10.00 Diolchgarwch.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Gorffennaf oedd:

£40: (69) Kevin Morris, Glangwna Lodge; £25: (12) G. a Z. Bowen, Glandŵr; £15: (2) P. ac O. Evison, Cae Hopcyn; £5: L. Williams, Refail.

Diolch am gefnogaeth pawb oedd wedi cyfrannu at brynghawn llwyddiannus y 'Miri Haf' ar 15 Gorffennaf.

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod yn y Ganolfan, Waunfawr ar nos Lun, 24 Gorffennaf. Roedd y Cyng. Clive James yn y Gadair, gyda'r Cyng. Vera Roberts hefyd yn bresennol. Rŵan bod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i dorri'r gor-dyfiant ar risiau Pont yr Afon bach yn flynyddol, cyflwynwyd cais iddynt dorri'r celyn rhwng Eryl Cottage a'r bont ar ochr arall y ffordd yr un pryd.

Roedd y Cyngor wedi argymhell amod i ddiogelu'r fynedfa pan oedd Cyngor Gwynedd yn ystyried cais i ddefnyddio safle Pen Cefn. Fodd bynnag, nid oeddynt wedi gwrandao ac, ym mam y Cyngor, roedd y sefyllfa yn beryglus. O hyd roedd parcio ar y concrit dros y ffordd i Garej Gwalia yn achosi sefyllfaoedd peryglus, ond nid oedd Cyngor Gwynedd na'r Heddlu yn fodlon derbyn cyfrifoldeb.

Nid yw awdurdodau 'Siwrne Saff' wedi darparu ystadegau ynglŷn â llwyddiant ymweliad y camerâu i Gaeathro.

Yn dilyn damwain ddrwg mae'r Cyngor am i Gyngor Gwynedd gymryd camau i gadw cyflymder y traffig rhwng yr ynys a Rhos Bach i'r cyflymder cyfreithiol, sef 60mya, ac felly leihau'r tebygolrwydd o ddamwain arall.

PRIF EISTEDDFODWR Y BYD. A oes rhywun wedi mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol am fwy o amser na Mr Elwyn Griffiths, 11 Erw Wen? Dydi o ddim wedi colli diwrnod o gwbl o unrhyw Eisteddfod Genedlaethol ers 58 o flynyddoedd. Ie, 58 not owt!

SWYDD NEWYDD. Dymunwn yn dda i Geraint Roberts, Cefn Rhos Isaf ar gychwyn ei swydd gyda pheirianwyr ymgynghorol 'Mott MacDonald' yng Nghaerdydd. Graddiodd mewn Peiranneg Sifil yn y dosbarth cyntaf ym Mhrifysgol Nottingham. Da iawn, Geraint.

I'R YSGOL FAWR. Pob hwyl i'r rhai sy'n dechrau ar dymor newydd mewn ysgol Uwchradd - Megan Lloyd a Gwen Thomas i Ysgol Brynrefail ac Aled Evans, Bethanie Jones, Lowri Ceiriog, Lliwen Owen a Gwion Eryl i Ysgol Syr Hugh Owen.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Awst

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK

oedd: £40: (64) Alun Roberts, 10 Erw Wen; £25: (25) Alwen Roberts, 4 Caeathro Bach; £15: (10) Dafydd Morris, Frondeg; £5: (49) Mrs O'Grady, Tyddyn Whisgyn.

FANDALIAETH. Yn ddiweddar bu achosion o fandaliaeth i'r pafiliwn ar y cae pêl-droed. Yn ogystal cafwyd hyd i dystiolaeth fod pobl yn yfed alcohol ger y pafiliwn ac yn gadael poteli a chaniau ar eu hôl. Mae'r Pwyllgor Cae Chwarae wedi hysbysu'r heddlu a byddwn yn cefnogi unrhyw ffordd i ddarganfod pwy sy'n achosi'r difrod i eiddo'r gymuned ac yn prynu neu yn cynnig diod feddwol i bobl ifanc o dan 18 oed. Eisoës cofnodwyd amserau nifer o ddigwyddiadau fel tystiolaeth ar gyfer y llysoedd.

CYFARFOD BLYNYDDOL. Cynhelir cyfarfod blynyddol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am 8.00yh nos Lun, 18 Medi yn Nhafam Bryngwna. Bydd y fantolen yn cael ei chyflwyno. Hefyd bydd etholiadau ar gyfer swyddi'r Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd a 10 aelod o'r pwyllgor. Yn ogystal gellir cyflwyno eitemau i'w trafod trwy law'r Ysgrifennydd presennol, Tim Lloyd, Tyddyn Cae, Caeathro. Croeso i bawb dros 18 oed sy'n trigo yn y dalgylch.

CLWB JIWO SEGONTIWM. Cynhaliwyd noson wobrwyo'r Clwb nos Lun, 10 Gorffennaf. Enillwyr y prif wobrau oedd: Mari Williams, Hannah Hughes, Owain Jones, Iona Williams, Llŷr Jones a Katie Lloyd.

Cafwyd noson hynod lwyddiannus gyda thorf o saith deg yn bresennol yn y ganolfan. Mae'r Clwb, a sefydlwyd fis Medi diwethaf, yn mynd o nerth i nerth a bydd tymor newydd yn dechrau fis Medi. Os oes unrhyw un â ddiddordeb mewn ymuno â'r Clwb, cysylltwch â'r hyfforddwr, Norman, ar (01286) 672344.



Oriel
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle


Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys



Gwynant
Pierce

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Blodau
Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn **870605**

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

BETHEL

DYMUNA Danny a Megan Humphreys, Is Helen, ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Mam-yng-nyfraith, Nain a hen Nain annwyl iawn. Diolch arbennig i staff Plas Maesincla, Caernarfon, am eu gofal o 'Nain Gwen'.

DIOLCHIAU. Dymuna Elwyn a Dilwen Hughes, Bryn Ogwen, ar teulu fynegi eu diolch a'u gwerthfawrogiad diffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt trwy air, cerdyn, llythyr, rhodd neu flodau, yn ystod eu profedigaeth lem o golli Mam a Nain annwyl yn ddiweddar. Diolchir i gymdogion ac i gyfeillion a chydabod ym Methel a'r cyffiniau am eu caredigrwydd a'u meddylgarwch ac yn arbennig i staff Cartref Nyrsio Cerrig yr Afon, Y Felinheli, am eu gofal dros y blynyddoedd, i staff Wardiau Tryfan a Hebog, Ysbyty Gwynedd ac i'r rhai a gyfrannodd roddion er cof amdani. Diolch hefyd i'r Parchedig Geraint S.R. Hughes am ei deyrnged bwrpasol yn y gwasanaeth.

DIOLCH. Hoffai Merfyn a Helen Morris, 29 Bro Eglwys, ddiolch o galon am yr holl anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch, Beca Fflur, chwaer arbennig i Tomos Siôn. Diolch yn fawr hefyd i'r Uned Famolaeth yn Ysbyty Gwynedd ac i Rhiannon a Carys am eu gofal.

LLONGYFARCHIAU i Amanda a Will, 4 Stad Eryri, ar enedigaeth eu trydydd mab, sef Iddon Griffith, ar 5 Mehefin, brarwd bach cariadus iawn i Gwion Wyn ac Ywain Emrys.

Dymuna'r teulu ddiolch yn fawr iawn am yr holl anrhegion a dderbyniodd Iddon.

CASGLU ARIAN. Gwion Wyn ac Ywain Emrys, 4 Stad Eryri, gyda'u cefnder, Gethin Wyn, a'u cyfnither, Sioned Ann, o Glanrafon, Bontnewydd. Aeth y pedwar ar daith gerdded yn Rhos on Sea ar 2 Gorffennaf gyda'r elw o £230 yn mynd at Diabetic UK Cymru. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd.

EISTEDDFOD. Cynhelir Noson Goffi yn y Neuadd Bentref nos Wener, 15 Medi, pryd y rhennir Rhestr Testunau yr Eisteddfod. Bydd cyfle hefyd i dderbyn enwau'r plant sydd am fod mewn partion Canu, Dawnsio neu Lefaru. Os oes unrhyw un yn fodlon hyfforddi Parti rhowch wybod i un o'r Swyddogion ar y noson. Mi fuasai'r Pwyllgor yn falch o dderbyn unrhyw rodd

ariannol tuag at gostau'r Eisteddfod a chydabyddir pob rhodd a dderbynnir cyn 10 Tachwedd yn Rhaglen y Dydd.

CLWB BRO BETHEL. Daliw sylw mai ar 12 Medi y bydd y cyfafod cyntaf o'r tymor newydd, a hynny yng nghwmni Bobby Haines, Caernarfon. Bydd cyfle i ymaelodi a chymdeithasu dros banded ar ddiwedd y pwn. Croeso arbennig i unrhyw aelod newydd.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Cynhelir cyfarfod o'r Gymdeithas ar nos Fawrth, 12 Medi am 7.00 yn Festri Bethel i drafod gweithgareddau am y flwyddyn nesaf. Dewch draw i gyfnewid syniadau.

NEUADD GOFFA BETHEL.

Enillwyr y Clwb 200 am fis Mawrth oedd: £40: (107) Leah Thomas, 6 Rhoslan; £20: (111) Susan Owen, Llys Gwynedd; £10: (33) Ceinwen O. Roberts, 34 Bro Eglwys.

Mis Ebrill: £40: (108) Myrna Owen, Camlan; £20: (102) Huw Williams, Cefn Gwyn; £10: (72) Mrs J.E. Elis, Glennydd, Y Ddôl.

Mis Mai: £40: (54) Marcus Robinson, Cartrefle; £20: (161) Andy Bell, Tŷ Newydd; £10: (62) Menna Coles, Maes yr Haf.

MERCHED Y WAWR. Bydd y gangen yn ailgydio yn y gweithgareddau ar nos Fercher, 13 Medi am 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd, pryd y bydd aelodau'r pwyllgor yn trefnu 'Blasu Bwyd y Byd', Y gwledydd dan sylw fydd Cymru, Yr Eidal, Ffrainc, Tseina, Groeg a Sbaen.

Bydd adloniant ysgafn dan ofal Anest Bryn a Lois Eifion o Benisarwaun. Bydd croeso cynnes yn eich aros. Gobeithiwn weld yr aelodau presennol a rhai yn ymuno o'r newydd. Mae rhaglen ddiddorol wedi ei threfnu ar eich cyfer. Y swyddogion am eleni yw Llywydd: Anne Elis (670726); Is-lywydd: Margaret Druce; Ysgrifennydd: Rita D. Williams (670601); Is-ysgrifennydd: Joyce Roberts; Trysorydd: Nora Parry (6705588); Is-drysorydd: Edith Jones.

CLWB PLANT BETHEL. A oes gennych chi ddiddordeb mewn gweithio gyda phlant? Rydym yn chwilio am unigolion i fod yn rhedeg Clwb Plant Bethel. Clwb yw hwn sydd yn cynnig gofal ar ôl ysgol i blant 3-11 oed. Bwriedir i'r Clwb fod ar agor rhwng 2.50yp hyd at 6.00yh o ddydd Llun i ddydd Gwener. Os â diddordeb mewn rhedeg neu weithio fel cymhorthydd o fewn y clwb, neu am fwy o fanylion, yna gadewch eich enw a'ch rhif ffôn yn yr ysgol i sylw Carol Davies-Owen (Ysgrifennydd y Clwb).

Gwynn Tregarth Cyn-brifathro Ysgol Bethel 1957-1965

Teyrnged i'r diweddar T. Gwynn Jones, Gwynn Tregarth, a draddodwyd gan Selwyn Iolen o'r Maen Llôg yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe.

Newyddion trist oedd clywed fod Gwynn Tregarth, Cyfarwyddwr Cerdd Gorsedd y Beirdd, wedi colli'r dydd. Roedd Gwynn yn bur wael ers tro ac fe ddioddefodd yn dawel a dewr hyd y diwedd.

Fe roddodd oes o wasanaeth i'r Orsedd a'r Eisteddfod a hefyd fe deithiodd Gymru benbaladr fel beirniad ac arweinydd cymanfaoedd canu. Bu'n aelod o Fwrdd yr Orsedd am dros ddeugain mlynedd. Bu'n Geidwad y Cledd am bymtheng mlynedd ac yn Gyfarwyddwr Cerdd am chwarter canrif.

Roedd Gwynn yn adnabyddus o dan dri enw. Yr enw parchus fel prifathro a beirniad cerdd oedd Mr T. Gwynn Jones, Llanfairfechan. I'w gyfoedion yn Nyffryn Ogwen, Gwynn Dob oedd o, sef yr enw ar ran o bentre Tregarth lle magwyd o. Ac, wrth gwrs, yng Ngorsedd y Beirdd, wel Gwynn Tregarth. Oedd, roedd ganddo feddwl mawr o'i bentre genedigol ac ardal chwarelyddol ei fagwraeth. Ei dad yn un o'r Tri Thenor enwog o Dregarth, ac roedd Gwynn yn falch iawn o gael cydnabod hynny.

Roedd yna rhyw fywiogrwydd o gwmpas Gwynn bob amser. Roedd

o'n llawn egni a brwdfrydedd. Bob amser ar gychwyn i rhywle, neu newydd ddod adre. Roedd o wrth ei fodd yn dangos ei ddyddiadur, a hwnnw yn ddu o gyhoeddiadau ymhob rhan o Gymru a'r byd. Trist oedd gweld un mor egniol yn llonyddu ac yn cael ei gornelu yn ystod y misoedd diwethaf ma.

Roedd Gwynn a minnau yn gyfeillion ers blynyddoedd. Fe gawsom y pleser o deithio'r byd gyda'n gilydd a chyd-feirniadu mewn dwsinau o eisteddfodau led-led Cymru, ac er i ni gyrraedd adre o ambell steddfod ar dorriad gwawr fore Sul, gallech fentro y byddai Gwynn wrth yr organ yn Horeb, Llanfairfechan, ar gyfer yr oedfa ddeg.

Ar wyliau ym Moscow unwaith, cael dewis mynd i'r opera neu i'r syrcas. Gwynn yn naturiol yn mynd i'r Tŷ Opera ac mi es innau i'r Syrcas. Bu'n edliw hyn i mi am flynyddoedd, ond dwi'n credu i'r ddau ohonom fwynhau ein hunain y noson honno.

Nid yn unig yr oedd Gwynn yn feirniad, roedd o hefyd yn gyfansoddwr ac yn arweinydd. Fe gyfansoddodd nifer o ganeuon ar gyfer plant ac oedolion ac un o'r rhai mwyaf enwog ydi 'Diolch i'r Iôr', y geiriau gan ei ddiweddar frawd, Emyr.

Wrth gofio am ei wasanaeth a'i gyfraniad, dwi'n siŵr y cawn ninnau hefyd, ddiolch i'r Iôr am T. Gwynn Jones, Gwynn Dob, a Gwynn Tregarth.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040


- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren



Ras yr Wyddfa 2006

Cynhaliwyd 31ain Ras yr Wyddfa ar ddydd Sadwrn y 22ain o Orffennaf. Er gwaetha'r cymylau duon cadwodd y glaw draw ac enillwyd y ras mewn amser o awr, saith munud a 25 ciliad gan y Sais, Andi Jones. Y Cymro, Tim Davies, oedd yn ail – brin hanner munud ar ôl yr enillydd, a Gwyn Owen a Dylan Jones oedd y dynion lleol cynta'n ol.

Llongyfarchiadau hefyd i'r rhai oedd yn llwyddiannus yn rasys y plant ar y nos Iau blaenorol. Oes modd ichi yrru unrhyw luniau o'r enillwyr atom ni ar gyfer y rhifyn nesaf o'r Eco?



Yr enillydd Andi Jones (1'07'25)

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

Byddwch yn llawer
gwell allan hefo Ni!

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...			
IMPORTS	GERMAN	SWEDISH	
FIAT	PEUGEOT	BMW	SKODA
Ceir Benthg AM DDIM Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk AVW Car Service BOSCH Service VOLVO MERCEDES SAAB			

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



Quality Hotel Llanberis

(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS

with droed yr Wyddfa

Ffôn: **Llanberis (01286) 870253**

UN FUNUD FACH

ROLANDO

Daeth y Sycas i'r Faenol ddiwedd Awst, ac mae'n debyg i'r torfeydd fwynhau eu hunain yn arw wrth weld y perfformwyr yn mynd trwy eu pethau. Fûm i ddim yno eleni. Erbyn i mi feddwl am docyn roedd y cyfan drosodd am flwyddyn arall.

Ond mi fûm yno'r wythnos ganlynol yng Ngŵyl y Faenol. Bûm yn y cyngerdd operatig ar y nos Sadwrn. Roedd yn noson fwyn a chynnes, a'r cyngerdd o safon uchel iawn. Mwynheais y gerddorfa a'r côr a'r tri unawdydd, yn cynnwys wrth

reswm, Bryn Terfel ei hun. Ac roedd y ffaith bod y tri ohonynt yn amlwg yn mwynhau eu hunain yn gwneud y noson yn fwy arbennig fyth i'r gynulleidfa gref.

Braf iawn oedd clywed y tenor o Fecsico, Rolando Villazon, yn cyfarch y dorf yn Gymraeg ar ddechrau'r noson. Ac roedd ei Gymraeg mor naturiol a chlir nes bod dyn yn amau bod Rolando wedi bod ar gwrs Wlpan cyn dod i'r Faenol. O fewn dim roedd wedi swyno'r gynulleidfa â'i ganu ardderchog. Ac yna, wrth ganu deuawd gyda Angela Gheorghiu, dechreuodd jyglo tri oren, a rywsut fe lwyddodd i

ganu a jyglo trwy'r gân gan daro pob nodyn... a dal pob oren! Synnwn i ddim nad yn y Faenol y bu Rolando'r wythnos flaenorol hefyd, yn gwneud ei ail swydd fel jygler sycas.

Roeddwn wedi dotio, a fedrwn i ond rhyfeddu at ddawn y dyn. Gallai ganu a jyglo a hyd yn oed fentro iaith newydd, gan fwynhau'r cyfan i'r eithaf. Ac nid un peth yn unig y bydd gofyn i chi a minnau ei wneud heddiw ac yfory, ond pob math o bethau amrywiol. Does ond gobeithio y cawn nerth i wneud y cyfan hyd eithaf ein gallu. Nid bod hynny'n hawdd wrth gwrs. Mae mor rhwydd colli'r cydbwysedd, a rhoi ymdrech fawr mewn un maes ar draul rhywbeth arall. Gallwn hyd yn oed roi amser ac egni i wneud

pethau dibwys yn dda tra'n esgeulus o bethau llawer pwysicach. I'r Cristion, gwneud pob peth er clod i Dduw yw'r peth mawr. Yn y byd prysur sydd ohoni, mae hynny'n gallu bod yn anodd. Mae cymaint i'w wneud, a chymaint o gyfrifoldebau a chymaint o ddisgwyliadau arnom.

Mor braf felly yw gwybod fod Duw yn deall hynny. Mae'n gwybod am ein prysurdeb, ond mae'n gwybod hefyd am ein doniau a'n gwendidau. Wrth i ni daro'r nodyn a jyglo'r peli yn y cartref a'r gwaith a'r gymdogaeth y dyddiau nesaf hyn, boed i'r Brenin Mawr ein nerthu i wneud y cyfan hyd eithaf ein gallu ac er mwyn ei ogoniant ei hun.

JOHN PRITCHARD

Rhai o dimau buddugol Tlws Peldroed yr Eco



Cwrs Sgriptio ar gyfer y Cyfryngau

Medi 15-17 2006
a Chwefror 16-18 2007
gydag Angharad Jones
a Tony Llywelyn

Cwrs mewn dau hanner – pewythnos yn yr hydref a phewythnos yn y gwanwyn a chyfle dros y gaeaf i weithio ar eich syniadau. Dyma gyfle i rai sydd am ddatblygu eu sgiliau o ddifri i weithio gyda dau sy'n brofiadol iawn. Pris y cwrs yw £240 am y ddau benwythnos, yn cynnwys bwyd a llety neu £175 yn ddi-breswyl.

Cofrestrwch heddiw trwy gysylltwch â Sian Northey: (01766) 522 811 neu ar e-bost: sian.tynewydd@dial.pipex.com

... parhad o'r dudalen ôl

Digon i edrych ymlaen ato felly. Gobeithio eich bod fel fi yn teimlo'n hyderus ar gyfer y tymor yma. Beth am roi cefnogaeth i'n timau eleni. Troi ein timau lleol yn rhan annatod o'n cymunedau. Mynd â'r bychan i Ffordd Farrar, yr Oval neu'r Traeth i weld ambell gêm. Gweld Giggs a Bellamy fel chwaraewyr Cymru, nid yn unig Lerpwl neu Man Utd! Ymfalchio fod bachgen o'r ardal yn cael treial yn Wrecsam. Gofyn i'n hunain pwy yw'r 'ni' go iawn.


Apêl

Mae'n hysbys i bawb am y cwmwl oedd yn hofran dros ddyfodol yr Eco, ond diolch fyth ymddengys fod

achubiaeth i ddod. Yn y cyfarfod gofynnwyd fy marn ar yr ochr chwaraeon. Dywedais fy mod yn barod i gario 'mlaen i lenwi'r dudalen, ond y buaswn yn hoffi llenwi'r colofnau gyda mwy o straeon lleol eu naws, gan geisio adlewyrchu yr ystod eang o weithgareddau sy'n digwydd. Dyna yw bara menyndwrhwy bapur bro, er y teimlaf fod gennyf ddyletswydd hefyd i adlewyrchu a hyrwyddo, os yn bosib, agweddau ar chwaraeon cydwladol, yn enwedig yng Nghymru.

Os yw achub y trysor o'n papur bro yn werth rhywbeth go iawn felly, a wnewch chi fy mhledu gyda gwybodaeth, barn a syniadau o'n milltir sgwâr. Rhewch gyfle i mi drwy hynny gael ail wynt wedi bron i 20 mlynedd ac adlewyrchu lle annatod byd y campau ym mro'r Eco.

CHWARAEON



Elwyn Griffith, Lôn Glai, cneifiwr lleol profiadol.

Y Gweill yn Llaw'r Galluog

Diwedd mis Gorffennaf, denwyd torf dda unwaith eto i faes parcio tafarn y Gors Bach i wyluo yr Ŵyl Gneifio flynyddol. Eleni roedd gwerth £800 o wobrau yn ogystal â'r 'handpiece' gwerthfawr yn wobwr yn y gystadleuaeth agored i'r cneifwyr profiadol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol daeth ambell 'Top Gun' neu 'hen law' draw o Seland Newydd i gystadlu. Ar wahân i'r Kiwis, caed cystadleuwyr o Gymru, yr Alban, Iwerddon ac Ynysoedd y Malinas.

Mae'r gystadleuaeth hon yn cael sylw blynyddol yng nghylchgrawn y *Shearer* yn Seland Newydd, ac i wneud y Kiwis yn fwy cartrefol bydd Wil Gors Bach yn gwneud yn siŵr fod cyflenwad o TUI, D.B. a SPEIGHTS ar gael i dorri syched.

Ymlaen at y cystadlu, gyda John Till, y dyfarnwr, a Keryn Herbert, yr amserwr, yn cadw llygaidd a bys barcud.

Yn y Gystadleuaeth Iau, wedi ei noddi gan Cox Agricultural ac Idris Morris, aeth y brif wobwr i lanc lleol, Iwan Jones (51.75e), Jim Thomas o Seland Newydd yn ail ac un lleol arall, Rhys Owen, yn drydydd. Gyda llaw, dymuniadau gorau am wellhad buan i Idris Morris, Fachell, wedi ei anffawd yn ddiweddar.

Gyda gwobrau o £100, £50 a £25 wedi eu noddi gan Aaron Hughes, Geraint Edwards, Mitre Amusements a Desmond Hughes, caed cystadlu brwd yn y Dosbarth Hŷn. Yr enillydd oedd Corey Salmond, Seland Newydd (34.13e), a'r ddau Gymro, Gareth Davies (35.25e) a Daniel Hughes (41.1e) yn dilyn.

Yna daeth tro'r cneifwyr profiadol am y Tlws Agored a gwobrau o £200, £100 a £50, wedi eu noddi gan Tafarn y Gors Bach, Hughes Meats, Dunn ac

Ellis, Gwynedd Skip Hire ac R.L. Davies Plant Hire. Aeth y Cymry a'r Kiwis benben yn hon, ond adref bydd y tlws yn aros gyda'r Cymro, Alwyn Manzini (28.8e) yn trechu Stu Humphrey o Seland Newydd, a'r pencampwr hŷn, Corey Salmond, yn drydydd.

Yr oedd criw o ferched hefyd am ddangos eu crefft a dwy ferch o 'wlad y cwmwl gwyn': Sandra Newland (Pongaroa) a Jasmine Tipine (Tuatapere) yn trechu y ferch leol, Elin Griffith.

I gloi'r cystadlu daeth cystadleuaeth yr Handpiece, a dyma uchafbwynt y diwrnod. Y gamp yw cneifio tri oen yn erbyn y cloc. Bydd y noddwyr, Carlsberg UK, wrth eu bodd gan fod cryn alw am eu cynnyrch wedi'r holl chwysu. Yr enillydd teilwng oedd Gareth Evans, a hynny mewn amser a dorrodd y record flaenorol. 1 munud 42 eiliad fydd y targed newydd i gneifwyr y dyfodol.

I hyrwyddo'r grefft yn lleol rhoir gwobr o £30 i'r cneifiwr cyflymaf sydd yn byw o fewn radiws o 10 milltir i'r Gors Bach. Bydd y noddwyr, O.P. Evans a North Wales Fibreglass, yn hynod falch o berfformiad Meurig Roberts, Tal y Braich. Ef fydd yn dal Cwpan y Cneifwyr Mynydd am y flwyddyn nesaf.

Ar wahân i'r noddwyr a nodwyd uchod, hoffai Wil ddiolch hefyd i'r canlynol a chwaraeodd ran mewn diwrnod llwyddiannus oedd yn adlewyrchu un o'n hen grefftau cynhenid:

W.A. ac R.J. Williams (Cefn); Elwyn Jones (Fachell); H.F. Owen Transport; R.G. Williams Transport; M.W. Pritchard a'i Feibion, Nant Peris; Cyngor Bugciliaid yr Ucheldir; Elfed Griffiths Cneifwyr; Jones and Whitehead; Bill Moss ac Alistair Anderson.

Tlws Pêl-droed yr Eco 2006

Tair noson, 20 o dimau, tua 200 o chwaraewyr, cydweithrediad da ymysg y rheolwyr, cystadlu brwd ac ambell chwaraewr addawol yn denu sylw. O ia, traddodiad y gystadleuaeth o ddarganfod gôl-geidwaid addawol yn parhau. Bydd ambell arbediad yn aros yn y cof. Ac i orffen, cymorth parod merched y 'siop' yn Llanrug a Bethel yn ein disychedu yn y tymheredd uchel!

Dyna'r ystadegau moel. Bu'n gystadleuaeth glos ymhob oedran a braf oedd gweld cynrychiolaeth o bob pentref. Diolch i'r sawl fu yn rheoli a hyfforddi. Soniais yn aml am y boddhad o drefnu'n flynyddol. Mae'n waith caled ond mae'r fro yn mynnu ei pharhad. Yn wir cefais ambell awgrym y dylsid cael un noson arall oherwydd y twf ym mhêl-droed merched yn yr ardal. Cawn weld!

Yn y gystadleuaeth Dan 7 ar faes Ysgol Llanrug, gorffennodd Llanberis (13 pwynt) ar y brig, gyda Bethel a Deiniolen gyda 12 pwynt. Ar wahaniaeth goliau, Deiniolen fuasai'n herio Llanberis. Cafwyd gêm dda ond dwy gôl seren y noson, Daniel Davies, yn danfon y tlws i fyny'r dyffyn i Lanberis.

Ar faes y Weirglodd Rydd ar gyfer y rhai Dan 9, daeth saith tîm y tro yma, gyda Llanrug yn curo tîm dawnus Waunfawr 2-1 wedi'r 'gôl aur' yn y gêm gyn-derfynol gyntaf. Yn yr ail gêm, Bethel A yn curo Deiniolen 2-0. Fel y disgwyliwyd cafwyd gêm agos rhwng yr hen elynion, ond eleni gôl Dylan Thomas gipiodd y tlws i Lanrug. Roedd ei dad wrth ei fodd, ac yntau wedi ei eni ym Methel ac wedi chwarae i Lanrug.

Roedd y ddrama i ddod ar y nos Iau ar faes clwb Bethel. Diolch arbennig i'r criw am baratoi maes teilwng i'r timau. Roedd y saith tîm yn chwarae yn erbyn ei gilydd ac wedi 21 o gemau, roedd Llanrug A, Bethel B a Llanberis gyda'r un nifer o bwyntiau a'r un gwahaniaeth goliau. Aeth Llanberis trwodd fel y sgorywyr mwyaf o goliau. Gêm ychwanegol felly am yr ail safle, a gôl Jack Wilde yn gyrru Bethel drwodd.

Sôn am ffeinal. O un ochr i'r llall, taro'r pyst, arbedion di-ri, ond yn hwyr yn y gêm Guto Griffiths yn rhwydo'r unig gôl i ddanfon y tlws i Fethel.

Y tlysau yn mynd i dri cartref gwahanol felly eleni, ond rwy'n siŵr fod digon o dân ym moliau hogiau Deiniolen a Waunfawr i ymgiprys am y tlysau y flwyddyn nesaf.

Teimlo'n Hyderus

Gyda Chwpan y Byd wedi llenwi'r gagendor, daeth tymor pêl-droed arall i'n cynhyrfu. Am unwaith yma yng Nghymru teimlaf bod rhyw hyder yn codi. Ar lefel ryngwladol mae John Toshack yn rhoi cyfle i ieuencid ac yn

ffurfio patrwm o chwarae sy'n gweddu i'r chwaraewyr. Mae Bellamy yn dod yn arwr a Giggs yn plethu'n gelfydd i'r tîm yng nghanol y cae. Buasai unrhyw ganlyniad ffafriol draw yng Ngweriniaeth Czech ddechrau Medi yn tanio fflam.

Ar lefel y clybiau proffesiynol mae Caerdydd a Wrecsam wedi cael cychwyn gwyh, ac Abertawe eto i danio. Yr elfen fwyaf cadarnhaol yw'r nifer o Gymry sy'n chwarae i Gaerdydd a Wrecsam. Yn nhim Wrecsam, a drechodd Caer, roedd wyth Cymro - chwech ohonynt wedi'u geni yn ardal Wrecsam. Gwyh! Tybed a yw fy hen bregeth syffedol ar fin cael ei gwireddu. Yn sicr, mae Mark Jones ynghanol cae Wrecsam yn denu sylw, ac yn sicr o ddarganfod ei ffordd i un o'r timau 'mawr'. Gyda llaw, roedd pabell yr Elyrch yn denu cryn sylw ar faes yr Eisteddfod eleni. Gobeithio y bydd Wrecsam yn manteisio yn yr un modd draw yn Sir Fflint y flwyddyn nesaf. Wedi blynyddoedd llwm o gadw'u trwynau uwchben y dŵr mae criw y Caer Ras yn haeddu ein cefnogaeth.

Ar lefel y Gynghrair Genedlaethol mae arwyddion fod y safon yn gwella. Siomedig oedd gweld y Seintiau Newydd yn ymadael ag Ewrop, ond bu Caerfyrddin a Llanelli yn chwifio'r faner. Erys o hyd y broblem o ddenu cefnogwyr, ac yn y cefndir mae'r ddadl o gynghrair yr haf yn dal i ffrwtian.

Yn ein hardal ni mae Bangor, Caernarfon a Phorthmadog yn ymladd am yr un gefnogaeth. Dylai'r timau yma gael y rhyddid - fel yn Iwerddon - i chwarae gemau unai ar nos Wener neu'r Sadwrn neu'r Sul. Eto mae arwyddion fod bechgyn lleol yn cael cyfle yn y timau hyn. Pwy fydd yr Owain Tudur Jones nesaf ys gwn i?

Yna i'n milltir sgwâr ein hunain. Bydd Llanrug a Llanberis yn mynd benben unwaith eto ac yn sicr bydd y ddau dîm yn blês â'u dechreuad yn y gynghrair. Mae arwyddion y gallai Llanrug greu argraff y tymor yma a chafwyd chwipo o gêm rhyngddynt a'r Howgets, a fu'n geffylau blaen y tymor diwethaf. Yn yr un modd, Llanberis a'u deg dyn yn dychwelyd o Dreffynnon gyda phwynt gwerthfawr. Bydd Bethel hefyd yn blês â'u dechreuad o bedwar pwynt allan o chwech. Ymddengys fod cynllun penodol mewn llaw i ddatblygu maes yn y pentref, a bydd hyn yn codi calon nifer fu'n ymlafnio am sawl blwyddyn bellach.

Trist meddwl na fydd tîm yn Neiniolen eleni. Gobeithio y bydd y 'ffyddloniaid' yn dal i weithio gyda'r carfanau ieuencid sydd yn y pentref ac yn ail-danio'r fflam. Onid ddod oedd hi pan oedd dathliadau y pencampwriaethau a'r Junior Cup ar hyd y strydoedd? Bydd Llanrug a Llanberis yn dal yno, gobeithio yn feithrinfa i'r ieuencid lleol.

>>